Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd.

Cyf. 4. Rhif 2.] CHWEFROR, 1904. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Herbert Spencer.
Adgyfodiad y Diafol.
Gan Mr. T. J. Evans, Llandyssul a'r Parch. Jenkyn Thomas, Rawtenstall.
Gweddi a Rhyfel.
Gan Senex.
Hen Dy Cwrdd, Aberdar.
Gweinidog y Mynydd.
Gan Tudfathar.
Adolygiadau.
Priodas. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.
Bwrdd y Golygwyr.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a chofnodion eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

D.T., Penarfawr; Parch. E.D.P.E., Kidderminster; J.D., Llundain; Dr. L., Llanon; J.D., Llanwnen; A.C.R., New Jersey, U.D.A.; D.J.D., Erieville, U.D.A.; S.D., Cilfallen; E.L., Bedlinog; J.J., Tonypandy; D.H.S., Mountain Ash; S.E., Frowen; D.T., Prengwyn; D.J., Rhydfene; E.J.T., Abertawe; R.Ll., Merthyr; S.E., Burry Port; P.P., Castellmawr; W.E., Tylorstown; Parch. J.W., Pantteg; Parch. J.T., Rawtenstall; J.L., Wrexham; D.E., Blaenddol; E.D., Cwmdar; A.D., Cellan; D.H., Castellnedd; E.T., Talgarreg; J.T.D., Caerfyrddin; J.J., Castellnedd; J.J., Aberaman Farm; Miss J. Rhydychen.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

WEDROSIA:

Yn cynwys y Nofel Fuddugol yn Eisteddfod Mountain Ash, gan T. WEDROS EVANS. Un o'r llyfrau mwyaf difyr yn yr iaith Gymraeg.

PRIS 6c.; trwy y *Post*, 7c.

Hanes PLWYFI LLANGELER a PHENBOYR

Gan DANIEL E. JONES.

Buddugol yn Eisteddfod Drefach-Velindre, 1897. Wedi ei adolygu a'i helaethu, a chyda *Map* o'r Plwyfi.

Yn rhad trwy y *Post* am 3s. 6ch.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

44, King Street, Carmarthen.

T. CONWIL EVANS,

LADIES & GENTLEMEN'S TAILOR AND WOOLLEN DRAPER.

A Good Selection of Materials always in Stock.

Ardwyn, Lampeter.

TIMOTHY RICHARDS,

Ironmonger and General Merchant.

Agent for Bradbury's Sewing Machines; J. Pullar & Sons, Dye Works, Perth; J. & B. White's Portland Cement; and for all kinds of Agricultural Implements.

Enormous Stock of Hanging Papers always on hand.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress : Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term : Boarders, £17 17s., including Free Laundry ; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d. ; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers. F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU.

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd : Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel.
Prifathraw : T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau (Arts) Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts) ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution

Y Tal Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £0 ar ddechreu'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg, 'Gymnasium,' Cychod, Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden; a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra Hall, o dan arolygiaeth Miss E A. Carpenter.

Am Prospectus, a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

T. Mortimer Green, Registrar.

T. E. JONES & CO.

(ESTABLISHED 1852)

Corn Merchants, Wholesale and Retail Grocers,

The Stores and Ffrwdwen Mills, Llandyssul.

Wheat Plant of the most modern type newly set up.

Farmers' Wheat manufactured into first class Flour.

Home Brand Flour as well as Healing's retailed at the lowest prices.

Glasgow House, Lampeter.

Men's and Boys Overcoats, Hats, Caps, Umbrellas.

D. J. EVANS,

CLOTHIER,
GENT'S MERCER, &c.

Waterproofs, Hosiery, Shirts, Ties, Collars, Gloves, &c.

Suits and Single Garments made to measure.

ABERCERDYN MILLS.

. . . NOTED FOR . . .

Real Welsh Flannel, Cloths, Ladies' Dresses,

BLANKETS, &c.

APPLY TO M. EVANS & SON, OR TO

D. EVANS, Auctioneer & Valuer,
Glan Teifi, LLANDYSSUL.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD.,
BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

Taliadau ac Addewidion tuag at Adeiladu Brondeifi.

Cydnabyddwyd eisoes, £1,477 ; D. Davies, Hove, Brighton, £10 ; Miss Lewis, Maesgwilym, Cellan £2 ; W. Davies, Myrtle Hill, Lampeter (2nd don.), £1 1s. ; D. Jones, Shoemaker, Lampeter, £1 1s. ; A Friend, £1 ; J. Jackson, Blackpool, 10s. 6d. ; Mr. Williams, Royal Oak, Porthcawl, 10s. 6d.; D. Thomas, Wavertree, Liverpool, 10s. 6d. ; *In Memoriam* D. L. E., Aberystwyth, 10s. 6d. ; J. D. Stephens, do., 10s. 6d. ; Mrs. Lewis, 53, North Parade, do., 10s. ; W. J. Jones, do., do., 7s. 6d. ; Mrs. Probin, do., 5s. ; Tom Williams, Erw House, do., 5s. ; H.H., do., 5s. ; Miss Eleanor Evans, do., 5s. 6d. ; J. Joinson, Pier Street, do., 10s. ; F. H. Plumptre, Newton Abbot, 10s. 6d. ; T. Harwood, Bolton, 10s. 6d. ; Miss Jenkins, Trecefel, Tregaron, 10s. ; Mrs. Edwards, Cwmcanol, Lampeter, 10s. ; Martha Davies, Castell, Pencarreg, 10s. ; Mrs. Evans, Rhydycais, Cwmanne, do., 10s. ; D. Davies, Esgerwen-isaf, do., 10s. ; H. Davies, Brondeifi, Lampeter, 10s. ; Mrs. Davies, 10, Station Terrace, do., 10s. ; John Morris, do., do., 10s. ; Mr. Williams, Harford Square, do., 10s, ; H. Davies, Pound, do., 10s. ; D. Jones, Tailor, Bridge Street, do., 10s. ; Rev. D. Jones, Baptist Minister, do., 10s. ; Miss Davies, Castle Hotel, do., 10s. ; M. Howells, 2, Mill Street, do., 10s. ; S. Davies, Mile End, do., 10s. ; Wm. Jones, Butcher, do., 10s. ; J. Davies, Drover's Road, do., 10s. ; Jonathan Williams, Boonville, do., 10s.; J. W. Morgan, Emlyn House, do., 10s. ; E. Richards, Postmaster, do., 10s. ; E. Evans, Butcher, do., 10s. ; E. Williams, Llanwnen, 10s. ; Dl. Lloyd, Llysfaen-uchaf, Cribyn, 10s. ; Wm. Lewis, Schoolmaster, Lampeter, 10s. ; T. Williams, Maescanol, Llanybyther, 10s. ; T. Eynon Thomas, do., 10s. ; T. Thomas, Cross Inn, Llanfihangel-ar-arth, 10s. ; S. Jenkins, Glandwelyfach, Llandyssul, 10s. ; J. Davies, Maeshedydd, do., 10s. ; Mary Davies, do., do., 5s. ; J. Evans, Half Moon, do., 10s. ; Miss S. A. Davies, Alma, do., 10s.; J. D. Lewis, Gomerian Press, do., 10s. ; D. O'Connell, do., do., 10s. ; Mrs. Jones, Pantmoch, do., 10s. ; James Jones, Moelhedog-issaf, do., 10s. ; J. James, Gelligron, do., 10s. ; W. Jones, Gelliaur, do., 10s.; Miss M. G. Jones, do., do., 7s. 6d ; J. Davies, Gwarcefel Arms, do., 10s. ; J. Davies, Coedfoel-isaf, do., 10. ; S. Evans, Criborfawr, do., 10s. ; D. Evans, Criborfach, do., 5s. ; D. Williams, Fron, do., 5s, ; Miss Evans, Cwmmarch, do., 5s. ; Mrs. Lloyd, do., do., 5s. ; Mrs. James, Rhyd, do., 5s. ; Mrs. Davies, Llwynteg, do., 5s.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1904. [CYF. IV. RHIF 2.

NODION Y MIS.

YN ol yr *Universalist Leader* mae y Parch. R. J. Campbell, M.A., Gweinidog enwog y City Temple, Llundain, wedi dweyd fod *Universaliaeth*, neu gred yn adferiad terfynol yr holl deulu dynol i ddelw a ffafr Duw, yn treiddio trwy yr holl Eglwysi Efengylaidd yn Lloegr. Yn ddiamheu, mai y gred mewn uffern dragywyddol oedd y cyntaf i deimlo oddiwrth nerth a dylanwad yr ysprydnewydd sydd ar led y byd, ac mae nifer y rhai a gredant mewn dau ddosparth yn y byd a ddaw, un wedi ei ddedfrydu i wynfyd tragywyddol, a'r llall i wae tragywyddol, yn myned yn llai, llai, a hyny yn gyflym o flwyddyn i flwyddyn.

Ond wedi'r cwbl camsyniad yw meddwl fod y gred yn agos darfod yn llwyr o'r eglwysi. Gwrandawer ar y gri ofidus yma o Gaerdydd, a ymddangosodd yn y "*South Wales Daily News*," er ys ychydig yn ol. Ai tybed fod trefi ein Colegau mawrion, megis Caerdydd, Aberystwyth, a Bangor, gyda'u manteision uwchraddol mewn addysg a diwylliant yn aros yn ddiystyr o'r symudiad mewn meddwl crefyddol sydd yn barod wedi gwneud argraff mor ddwfn ar yr oes hon? Beth bynag am hyny, dyma'r gri mewn llythyr a ysgrifenwyd yn ddiweddar gan un a eilw ei hun yn "*Gyfaill Plant*," yn Nghaerdydd.

"Caniattewch i mi, fel rhiant (*parent*), i wrthdystio yn erbyn y dychrynu plant sydd yn myned yn mlaen mewn rhai Ysgolion Sul trwy ddysgu iddynt athrawiaethau atgas. Heno yr oedd yn gymaint allasem wneud i dawelu meddwl un o'n rhai bychain, a'i chael i gysgu ar ol clywed yn ystod y dydd am boenau uffern. Gallesid

meddwl y byddai addysg ffiaidd o'r fath hyn, yn ngoleuni gwybodaeth y dydd presenol, wedi myned allan o ymarferiad; o'r hyn leiaf, nid yw ond creulondeb coethedig *(refinement of cruelty)* i boenydio plant a'r fath goeg-chwedlau."

Beth pe bai'r "*Tyst a'r Dydd*," "*Y Goleuad*," neu "*Seren Cymru*" yn gosod dim ond ychydig iawn o bwys ar wyrthiau y Testament Newydd, heb son am eu gwadu yn gyfangwbl? Oni fyddai cyffro rhyfeddol trwy'r wlad, ac oni chawsai y Golygydd ddioddef yn drwm oddiwrth ei amryfusedd? Dyma beth sydd wedi digwydd yn ddiweddar yn America. Bu y "*New York Independent*" unwaith yn gwbl mor iach yn y ffydd ag un o'r papyrau a grybwyllwyd. Efe, mewn gwirionedd, oedd *champion* ceidwadaeth yn yr enwad Cynulleidfaol, pan yr oedd y "*Christian Union*" o dan olygiaeth Henry Ward Beecher, yn rhy barod i dori dros y terfynau. Ond mae'r "*Independent*" wedi syrthio'n ysglyfaeth i ysprydiaeth yr oes, ac wedi myned yn mhell tuhwnt i'r llinellau mwyaf eithafol ag y breuddwydiodd y "*Christian Union*" erioed, fel y tystia'r dyfyniadau canlynol—

"Mae cred mewn gwyrth yn weithred hollol feddyliol. Nid yw yn foesol nac yn ysprydol. Nid oes ganddi ddim i wneud a *character*. Ymddibyna ar ymresymiadau ac ar brofion. Mor bell ag y mae'n grefyddol, mae a fyno yn hollol ag ochr dduwinyddol crefydd, a'i hathroniaeth, neu ei hanes. Mae ganddi werth, gwerth mawr, os yw yn wir, yn ei phrofion o Dduw. Etto mae genym ddigon o brofion o Dduw ar wahan oddiwrth wyrth; ond pan y defnyddir gwyrth fel prawf, nid yw ond ymresymiad ychwanegol, a hwnw yn hollol feddyliol. Gall gwyrth fod yn anogaethol i *garacter*, ond nid *caracter* ei hun ydyw."

"Pe byddai gwyrthiau ein Harglwydd yn colli eu *credit* fel hanes, byddai addysgiadau ei Efengyl yn aros er gwaethaf hyny: mae gogoniant neillduol Cristionogaeth yn gynwysedig yn yr adnewyddiad a ddyga i'r enaid. Nid yw fel Bwdiaeth yn dysgu hunan-ddifodiant, nac fel Iuddewaeth, rhyw ffurf nacaol o gyfiawnder; ond golygaddiwygiad canolog yr enaid sydd yn ei osod o dan lywodraeth cariad. Nid yw yn ddigon i beidio gwneud drwg i'n cymydog; rhaid i ddyn garu ei gymydog, ac hyd yn nod ei elyn."

"Pa un a gafodd Crist ei eni o forwyn neu beidio, pa un a gododd ei gnawd, ei waed a'i esgyrn o'r bedd neu beidio, pa un a welodd pedwar cant o gredinwyr ef yn esgyn i'r nefoedd neu beidio—ac ni fyddwn mewn brys i roddi i fyny ein cred—yr ydym o'r hyn leiaf yn gwybod fod y grefydd Gristionogol yn gorphwys ar y Bregeth ar y Mynydd, ar yr unfed-gorchymyn-ar-ddeg, ar adnewyddiad yr enaid, a ddysgwyd i Nicodemus, ar Salm cariad yr Apostol Paul. Felly, pe byddai raid i'r gwyrthiau fyn'd un o'r dyddiau nesaf yma, byddem yn parhau o hyd i ddal yn gadarn wrth ddyledswydd, wrth ein rhwymedigaethau, ein gwasanaeth, wrth gymeriad, wrth y galon newydd, a bywyd sanctaidd cariad, ac i gredu o hyd ein bod yn cadw yn ddilwgr yr oll oedd yn fywiol mewn Cristionogaeth, a'r oll ag y defnyddid y gwyrthiau i'w cadarnhau."

Mae brwydr y gwyrthiau yn y dyddiau hyn yn cael ei hymladd oddiamgylch y cwestiwn o enedigaeth oruwchnaturiol Iesu Grist, neu y *virgin birth.* Fynychaf, y brif wyrth yn hanes Iesu, ei adgyfodiad oddiwrth y meirw—sydd wedi dioddef pwys yr ymrafael, er i'r cythreuliaid a moch Gadara fod yn destun dadl boeth dros ben ychydig flynyddau yn ol, rhwng y fath wŷr enwog a Mr. Gladstone a Proffeswr Huxley. Wedi hyny, daeth y cenhedliad gwyrthiol i'r ffrynt; a'r achlysur neillduol oedd cynyg y Proffeswr Harnack i symud ymaith o Gredo'r Apostolion y geiriau—"Yr hwn a gaed trwy yr Yspryd Glân, a aned o Fair Forwyn"—cynyg a siglodd Eglwys Brotestanaidd yr Almaen hyd ei sylfeini; ac mae ei ganlyniadau wedi ymledu dros yr holl fyd Cristionogol, ac yn aros hyd y dydd hwn.

Mae y ddadl wedi cael ei dwyn i *grisis* yn Eglwys Lloegr gan erthygl a ymddangosodd yn yr "*Hibbert Journal*" am fis Hydref, 1903, o dan y penawd, "arwyddocâd athrawiaethol genedigaeth wyrthiol." Yr awdwr oedd y Parch. C. E. Beeby, B.D., Ficer Yardley Wood, ger Birmingham, offeiriad dysgedig, a adnabyddid o'r blaen trwy lyfrau a gyhoeddwyd ganddo, fel yn cario yn mlaen draddodiadau y blaid ryddfrydig yn Eglwys Lloegr. Yr oedd wedi trin o'r blaen yr un pwnc mewn dwy o ddarlithiau yn ei "*Doctrine and Principles,*" a ddaeth allan yn 1900, ac wedi ei drin hefyd mewn modd cwbl mor feiddgar ag yn yr "*Hibbert Journal.*" Ond ni wnaed un sylw o hono gan ei Esgob, nac un awdurdod arall y pryd hwnw. Mae'n bosibl fod ymddangosiad yr erthygl yn yr "*Hibbert Journal*" wedi ychwanegu at y trosedd. Gormod, feallai, i offeiriad, oedd ymosod ar un o athrawiaethau sylfaenol ei Eglwys ei hun, mewn *Journal* o dan olygiaeth dau weinidog Undodaidd, yn cael ei ddwyn allan o dan nawdd yr *Hibbert Trustees*—bwrdd cyfansoddedig o

Undodiaid—a thudalenau yr hwn sydd yn agored i bob math o Radicaliaid i feirniadu athrawiaethau mwyaf cyssegredig yr Eglwys.

Peth arall, feallai, a wnaeth drosedd Mr. Beeby yn anioddefol, oedd fod ei erthygl yn ymosodiad uniongyrchol a didderbyn-wyneb ar lyfrau a phamphledi Dr. Gore, ei Esgob ei hun, a amddiffynent y cenhedliad gwyrthiol. O braidd y gellir cyfrif am ymddygiad brysiog a byrbwyll yr Esgob yn y drafodaeth, ond ar y dybiaeth fod y cwestiwn wedi gwisgo gwedd lled bersonol, yn neillduol, pan y cofiwn fod Dr. Gore yn cael ei gyfrif yn heretic ei hun, ac wedi bod yn wrthddrych drwgdybiaeth helwyr heresi oddiar ymddangosiad y gyfrol adnabyddus hono—"*Lux Mundi*,"—a ddaeth allan o dan ei olygiaeth yn 1889. Gan nad beth am hyny, ysgrifenodd yr Esgob at Mr. Beeby, ar ol ymddangosiad ei erthygl, lythyr yn cynhwys ensyniadau a adlewyrchent ar ei anrhydedd fel offeiriad yn Eglwys Lloegr, gyda'r canlyniad a ddisgwyliai. Ymddiswyddodd Mr. Beeby yn y man, ac mae y mater wedi ei gymeryd i fyny gan y Wasg yn gyffredinol, ac yn neillduol yn mhapyrau Birmingham, lle yr ymddengys gohebiaeth fywiog o ddydd i ddydd.

Mae'n amlwg fod Mr. Beeby yn offeiriad a barchir ac a edmygir yn ei blwyf, ac wedi bod yn fwy llwyddiannus na'r cyffredin yn ystod ei weinidogaeth o ugain mlynedd. Dangosir llawer o gydymdeimlad tuag atto, a beiïr yr Esgob gan urddasolion Eglwysig, megis Canon Henson, am ddwyn elfen newydd o anghydfod i'r Eglwys ag mae ei bodolaeth yn ymddibynu ar y gydnabyddiaeth galonog o amrywiaethau mewn barn yn gystal a defod. Mae Mr. Beeby wedi derbyn rhodd o £100 oddiwrth un o'i blwyfolion—Mr. Francis Mitchell—fel cydnabyddiaeth o'r golled fawr bersonol mae ei ymddiswyddiad yn olygu. Mewn llythyr oedd yn cydfyned a'r rhodd dywed Mr. Mitchell: "Mae y barnau ydych chwi yn ddal yn cael eu derbyn yn ddystaw gan lawer o offeiriaid, a chan y rhan fwyaf a leygwyr diwylliedig; ac os ydyw y mynegiad o honynt yn cael ei wahardd, fe beidia Eglwys Lloegr gynrychioli cred wirioneddol y bobl." Gan fod cwestiwn y cenhedliad gwyrthiol yn tynu cymaint o sylw yn bresenol, yr ydym yn gobeithio y gallwn sicrhau erthygl ar y pwnc yn un o'r rhifynau nesaf.

Dymunwn alw sylw neillduol at adroddiad y cyfarfodydd a gymerasant le yn ddiweddar yn Aberdar. Ymddengys i ni, fod y cyfarfod prydnawn dydd Llun, yn un arbenig yn hanes Undodiaeth yn Neheubarth Cymru; ac ar wahan oddiwrth anrhegion ei eglwys ei

hun, yn deyrnged o'r fath fwyaf anrhydeddus i un sydd wedi gwneud galluoedd mawrion a chymeriad dysglaer mor wasanaethgar er daioni yn Aberdar, ac yn Neheudir Cymru yn gyffredinol. Nis gallwn ddychymygu am un dref arall trwy'r deyrnas lle y buasai yn bosibl i sicrhau cyfarfod ar raddfa mor fawr a llwyddianus, a chyda chynrychiolaeth mor luosog a dylanwadol o'r gwahanol enwadau mawrion, a hyny er mwyn dangos parch i weinidog Undodaidd. Mewn gwirionedd, fel y dywedasom, yr oedd yn gyfarfod arbenig yn ein hanes, a bydd y rhai a gawsant y fraint o fod yn bresenol yn falch i gofio am dano tra fyddant byw. Llongyfarchwn ein hanwyl gyfaill yn y modd mwyaf calonog ar ddathliad mor anrhydeddus ddeugeinfed flwyddyn ei weinidogaeth, a dymunwn iddo ddyddiau lawer etto i barhau yn ei wasanaeth i'r achos goreu.

HERBERT SPENCER.

YN marwolaeth Herbert Spencer, y mae'r byd wedi colli ei athronydd mwyaf, y mwyaf, medd rhai, wedi dyddiau Aristotle. 'Doedd enw cyfarwyddach yn mysg dysgedigion y byd, o'r Amerig i Japan, nag enw Herbert Spencer—Apostol mawr Datblygiad. Efallai nad oes yr un awdwr wedi ei feirniadu, wedi ei ganmol, ac wedi ei gam-drin a'i bardduo yn fwy na'r ysgrifenydd hwn. Ond wedi ei farw y mae ei wir fawredd yn dechreu ymddangos, fel eiddo pob proffwyd arall, fel y tystia ysgrifau'r Wasg yn mhob gwlad wareiddiedig yn y byd yn ystod yr wythnos ddiweddaf.

Nid ellir, mewn ysgrif fer, boblogaidd, o'r fath hon, ond cyfeirio at nodweddion cyffredinol ei waith. Yn gyntaf, sylwn mai Herbert Spencer ydoedd gwir dad Damcaniaeth Datblygiad; yr oedd wedi gwneud cyfeiriadau ati rai blynyddau cyn i Darwin gyhoeddi ei lyfr bydenwog ar "*Origin of Species.*" A phan gyhoeddwyd llyfrau Darwin, ni wnaeth y diweddaf ond cymhwyso Damcaniaeth Datblygiad yn unig at y byd llysieuol ac anifeilaidd. Ond, haner can mlynedd yn ol, penderfynodd Spencer gymhwyso Deddf Datblygiad at bob ymddangosiad adnabyddus i'r meddwl, gan geisio egluro hyd yn nod ddeddfau moeseg a meddwl ar seiliau'r ddamcaniaeth hon. Mewn gair, cymerodd yr holl Wyddorau yn ei law, hyny yw, y cyfan o'r *Physical Sciences*; taflodd Uwch-anianeg dros y bwrdd fel peth hollol ddiwerth, a chymerodd ati i ail-adeiladu athroniaeth ar sail y Gwyddorau Anianol. Dangosodd, neu ceisiodd ddangos, y modd y datblygwyd y seren o nifwl anelwig y dechreuad, a'r modd y dadblygodd symudiadau'r trychfilyn lleiaf a grŷn wrth borth bodolaeth

yn rhodiad moesol y dyn gwareiddiedig, a sut y datblygodd goleuni heuliau'r cynoesoedd yn oleuni meddwl a rheswm Shakespeare a Kant.

Y mae enw ei lyfrau braidd yn lleng, ac y mae'r oll o honynt gyda'u gilydd yn ffurfio adeilad mawreddog ei *Synthetic Philosophy*. Y mae o'm blaen draethawd Mr. George Mivart ar ymddangosiad ei "*Principles of Psychology*," "*First Principles*," ac "*Essays*," a ysgrifenwyd ychydig dros 30 mlynedd yn ol, ac fel hyn y dywed am dano: "Y mae Mr. Herbert Spencer wedi ei alw gan Darwin, 'Y penaf o'n hathronwyr'; ac yn ddiau, edrychir arno gan gylch dewisedig o ddysgyblion edmygol fel yr awdurdod uchaf ar bob pwnc athronyddol. Heblaw meddu gwybodaeth o holl ganghenau'r Gwyddorau Anianol, gyda chyflymdra neillduol i weled cymhariaethau, a gallu dadansoddol cryf, y mae mor ffodus a meddu'r ddawn i arddangos ei gyfoeth o feddwl mewn cyfoeth cyfatebol o iaith, gan fod ei arddull yn glir a nerthol, yn llawn darluniadau byw, wedi eu dewis gyda medr rhyfeddol i ateb eu pwrpas; ac y mae llawer o honynt yn meddu hyd yn nod ar geinder barddonol. * * * Y mae Mr. Spencer, mewn gwirionedd, wedi cyd-drefnu, ychwanegu at, ac wedi datblygu athrawiaethau ei gydoeswyr a'i flaen-fynedwyr, fel y mae yr athroniaeth a esyd o'n blaen yn binacl gwirioneddol i'w ymdrechion—yn flodau a ffrwythau yr hyn sydd wedi bod yn hir ac araf dyfu o'n cylch." Dywed ysgrifenydd yn "*Nature*" am Rhagfyr 17eg:—"I rai darllenwyr ymddengys ysgrifeniadau Spencer yn oer a di-deimlad, a'r dyn ei hun yn brin o gydymdeimlad dynol; ond a ellir amheu nad oedd ymdrech mor fawreddog yn cael ei chario yn mlaen am flynyddau blinion gan ymdeimlad dwfn o ddirgelwch einioes dyn, y bod bychan, di-nod, sydd ganddo allu i feddwl, a rhyfeddu, llafurio, a gobeithio yn mysg y bydoedd crynion a ymroliant yn dragywyddol drwy y gwagle diderfyn."

Yn ail, beth yw ein dyled fel crefyddwyr i Herbert Spencer? Mae'n naturiol i gredu fod cynllun mor fawr ag athroniaeth Spencer yn dyfod yn rhywle i gysylltiad bywiol a chrefydd, ac er y cyfrifir ef yn fynych fel Amheuwr ac *Agnostic*, o bosibl nad ymddengys yn y diwedd, mai nid y gwasanaeth lleiaf a wnaeth oedd ei wasanaeth i grefydd. Ei argyhoeddiad dyfnaf, fel canlyniad ei holl ymchwiliadau, oedd bodolaeth Gallu anfeidrol a thragywyddol oddiwrth yr hwn mae pobpeth yn deilliaw—Gallu sydd yn aros tra mae pobpeth arall yn dymhorol ac yn gyfnewidiol. Dyna dystiolaeth un a ystyrid gan lawer fel prif athronydd a'r awdurdod uchaf ar addysg y Gwyddorau yn ei oes, ac mae'n golygu fod damcaniaethau materyddol Haeckel ac eraill, y sonir cymaint am danynt, yn ddisail a thwyllodrus. Dysga yn mhellach mai yr un gallu hwn sydd yn ffynoni i fyny ynom ni yn y ffurf o ymwybodolrwydd. Felly yr ydym ni yn ein hanfod o'r un natur a'r gallu hwn. "Ei hiliogaeth ef ydym ni." Honir yn gyffredin fod Spencer yn gwadu personoliaeth ac ymwybodolrwydd fel priodoleddau y gallu hwn, ond dyma ei dystiolaeth;—"Ymddengys i mi yn rhesymol i gredu fod y gallu

anfeidrol a thragywyddol hwn gymaint uwchlaw a thuhwnt i'r hyn a feddyliwn ni wrth bersonoliaeth ac ymwybodolrwydd ag ydym ni uwchlaw tyfiantau llysieuol." Hyny yw, mae y Gallu hwn yn golygu personoliaeth ac ymwybodolrwydd, ac feallai rywbeth anfeidrol mwy. Dysga Spencer hefyd fod y Gallu hwn, yn ngeiriau Matthew Arnold, "yn gwneud am gyfiawnder" trwy holl hanes y byd. Cred llawer o ddynion di-feddwl mai rhywbeth cyfnewidiol ydyw moesoldeb, heb sail iddo yn natur pethau—dim ond rhyw gytundeb cymdeithasol ag mae'n bosibl i gymdeithas arall wahanol ddifodi. Yn ngolwg Spencer, mae y byd hwn yn fyd moesol, ac mae ei hawddfyd yn ymddibynu ar fod ei deddfau moesol yn cael eu cadw. Yr ydym yn ddiolchgar fod Spencer yn ein cynorthwyo, ac yn cadarnhau ein cred Gristionogol, mor bell. Mae y Gallu, neu fel y dywedwn ni—Duw—yn bodoli; mae yn bersonoliaeth ymwybodol tuhwnt i'n gallu ni i'w amgyffred; mae yn drefn ac yn gyfiawnder trwy holl dreigliadau hanes; a phe byddai Spencer wedi talu mwy o sylw i ddyn fel rhan o natur, ac fel amlygiad o Dduw, o bosibl na fuasai cariad y fam at ei phlentyn, cariad y gwladgarwr at ei wlad, cariad y dyngarwr at ei frodyr, ffordd y groes yn hanes dynion goreu'r oesau—dyn yn ei fan goreu fel datguddiad o Dduw—wedi ei arwain i goroni ei "*Synthetic Philosophy*," a'r casgliad gogoneddus hwnw sydd yn sefyll yn *forefront* Efengyl yr Iesu—"Duw, cariad yw."

Am Herbert Spencer fel dyn, 'does ond ychydig i'w ddweyd, ond iddo fyw oes hir, lafurus, er gwaethaf afiechyd a gwendid, mewn symledd hollol, a phurdeb buchedd teilwng o athronydd. Fel Kant, gellir ei ddesgrifio fel dyn bychan, teneu, syml ei arferion. Bu fyw hyd ei oes yn ddi-briod; dywedir ei fod wedi aberthu serch ar allor athroniaeth, ac nad oedd yn foddlawn iawn ar y fargen wrth fwrw golwg yn ol. Mae yn sicr, beth bynag, iddo aberthu pleserau bywyd ar allor gwaith. Erbyn hyn mae wedi croesi ffin y dirgelwch anwybyddadwy. A ydyw ei wybodaeth yn eangach heddyw?

GWEDDI A RHYFEL.

"*War is a game which, were their subjects wise,*
Kings would not play at."
— *Cowper.*

Yn ol chwedloniaeth y Groegiaid, fe wnaeth Prometheus, wrth adeiladu ei ddyn, gymeryd ei ddefnyddiau o lawer cyfeiriad; cymerodd damaid o'r llew, tamaid o'r blaidd, tamaid o'r mwnci, y cadnaw a'r gath, a thamaid o bob creadur arall y gallai gael gafael arnynt. Dyna fel oedd y Groegwr gynt yn cyfrif am yr amrywiaeth-

au di-rif sydd yn nodweddu yr hil ddynol. Cyfrifai Darwin am danynt mewn modd gwahanol. Nad pa sut y mae cyfrif am hyny, y mae llawer o'r anifail, llawer o'r bwystfil yn aros yn y dyn o hyd. Ar rai prydiau teimlwn yn falch iawn oherwydd tybied ein bod yn gweled arwyddion fod yr hen yspryd "Trechaf treisied, gwanaf gwaedded" megys yn lleddfu dan ddylanwad meiriol y grefydd Gristionogol; ond nid cynt y deuwn i'r gred hyny na chawn ni eglureb tost o wirionedd yr hen ddywediad, nad oes genym ond cymeryd pin a chrafu trwch croen, na chawn ni ar unwaith ein bod wedi dal *Tartar*. Nid yw goroesiad yr addasaf ond yn anfynych yn golygu yr addasaf i orchfygu trais a gormes. "*Pray*," meddai Palmerston, "*but keep your powder dry*." 'E fynai Chamberlain heddwch, ond mynai wneuthur splae o'i arfau rhyfel; ac ofnwn nad yw'r splae a wneir heddyw gan Rwsia a Japan ddim yn sillebu heddwch.

Credai rhai ar adeg y cynulliad yn yr Hâg ychydig yn ol, fod Ymerawdwr Rwsia wedi llwyddo i gael gafael ar yr allwedd fuasai'n agor y drws i'r milflwyddiant. Gwelent, mewn dychymyg, y wawr yn tori ar y dydd y byddai dynion yn lle taflu eu cotiau i lawr a dangos y cwlwm pump, a bygwth y *Maxim guns*, yn dywedyd, "Deuwch ac ymresymwn*"; gyda hyny, disgwylid y deuai heddwch i deyrnasu, yr esgynai Iesu i'w orsedd, y troid y cleddyfau oll yn sychau a'r gwaywffyn yn bladuriau.

Ond, Ow'r siomedigaeth, nid cynt y dechreuai'r siarad am heddwch na fydd yr hen Adda, a dybid ei fod wedi ei lwyr oresgyn a'i ddarostwng dan reolau rheswm a chyfiawnder, yn tori allan o'r newydd yn holl hagrwch a chreulonder ei natur—mor afresymol ag erioed—a brawd yn rhoddi brawd i farwolaeth, gan ddwyn gwarth a gwaradwydd ar y grefydd a broffesir ganddynt.

Ar adeg y rhyfel cartrefol yn yr Unol Dalaethau dywedir i gynrychiolaeth o offeiriaid a phregethwyr—ar ol gweled y rhyfel yn myned gymaint yn eu herbyn—dalu ymweliad a'r Arlywydd, Abraham Lincoln, i geisio ganddo benodi dydd o ympryd a gweddi er cael yr Arglwydd o'u tu. Atebodd Lincoln, "nad oedd ei ofal ef gymaint am gael yr Arglwydd o'i du, ag oedd am gael ei hunan o du yr Arglwydd." Ac onid dyna'r safle iawn? Dangosodd Lincoln ei fod yn deall athroniaeth y grefydd Gristionogol yn well na'r gynrychiolaeth. Y mae yspryd crefydd yn gynwysedig, nid yn ein cais ni i gael Duw o'r un farn a ni, ond yn hytrach yn ein bod ni yn gosod ein hunain, mewn meddwl, teimlad a gweithred, mewn undeb a Duw. Y mae cydgordiad yn bosibl yn unig trwy fod dyn yn ymgyfaddasu at yr amgylchiadau gofynol. Ni wna Duw newid. Y mae Duw yn anghyfnewidiol. Mewn erthygl ddyddorol yn "*Spectator*" Addison, *No.* 207, ceir fod Socrates yn awgrymu ffurf o weddi i Alcibiades, fel hyn: "O Dduw, dyro i ni y pethau hyny sydd er lles i ni, pa un a fyddom yn gweddio am y pethau hyny, ai na fyddom; a symud oddi wrthym y pethau a fyddant er niwed, er i ni daer weddio am danynt." Yn yspryd y geiriau hyn, cawn y Cristion Dafydd Ionawr, fwy na dwy fil o flynyddau yn ddiweddarach yn canu:

"O Dad, dod in' bobpeth er lles,
I'w feddu'n gynes genyf,
A chadw yr hyn nas gwna fi'n well,
Yn mhell, yn mhell oddi wrthyf."

Mor wahanol i hyn yw yspryd y Jingo—pa un ai Sais ai Boer, Rwsiad neu Japaniad y bydd. Yn y cyffredin ceir y ddwy blaid yn gweddio ar eu duw am "Lwyddiant i'n harfau ni," gan lwyr anwybyddu, neu lwyr anghofio geiriau y bardd o Gastellhywel—

---

* Darllener Traethawd y ddiweddar Mrs. Jones, Broniestyn, yn YMOFYNYDD 1873, tud. 29.

"Er dweyd paderau didawl,
Ni cheir Duw i ochr y d——l!"

Y mae can' mlynedd, dybiwn, oddiar y cyhoeddodd Tomos Glyn Cothi gyntaf ei emyn (?) yr hwn a fwriadai i gael ei ganu am yr uwchaf gan swyddogion y grefydd Wladol wrth fyned allan i ryfel. Wele'r penill cyntaf; ceir yr oll yn YMOFYNYDD 1883, tud. 22.—

"Erchyllaf frenin, erwin wg!
Sy' a'th orsedd yn y tân a'r mwg!
Breninoedd fyrdd mewn oernad gri
Sydd obry'n udo mawl i ti," &c.

Nid y Duw a bregethai Iesu Grist yw y Duw sydd yn wrthrych mawl yr emyn hwn; a da genym ddeall a chredu fod rhai breninoedd heddyw yn gweithio a'u holl ddylanwad o blaid Heddwch.

SENEX.

ADGYFODIAD Y DIAFOL.

Y mae Mr. Gwilym Evans yn ei erthygl ar "Adgyfodiad y Diafol" wedi tynu ein sylw at un o'r pynciau hyny sydd wedi dyrysu penau athronwyr pob oes o'r byd. Gwelodd cenhedloedd boreu hanes nad perffaith y trefnwyd holl amgylchiadau bywyd. "Hunllef ofnadwy," i'r meddylgar, ydyw hyd y dydd heddyw. Ond pwysa'r baich yn drymach ar rai meddyliau na'u gilydd. Treulia ambell un oes heb weled ond yr hardd a'r tawel o'i ddeutu. "Beibl arall Duw," oedd natur i Ceiriog. Gwelwn ef yn rhodio'r maes a'r goedwig, a'i yspryd yn gorfoleddu yn y prydferthwch oddiamgylch. Côr y llwyni ganant iddo am fawr-dda eu Creawdwr; cwyd tonau'r nant i guro dwylaw o lawenydd. Daionus yw cymdeithas natur, medd ef, a'i thangnefedd glywaf yn mhob man. Wele, y mae yr ysbryd rodiodd rhwng llwyni Eden yn ei deml dawel. Arall ddaw, ar ei ol, yn yr unrhyw lwybrau. Clyw yntau gân adar, ond yn sydyn trywenir ei glust gan ysgrech hebog yn ymsaethu ar ei ysglyfaeth ddiniwed. Lle bynag yr â y dyn hwn cenfydd ddarnau briw y lladdedigion. Dychwel yn ol i'w gell i fyfyrio yn ben-isel uwchben y weledigaeth echrys, ac, ysywaeth, cymhellir ef i gymeryd ei ysgrif-bin yn ei law. Amlwg yw mai ffrwyth myfyrdod o'r fath gawn yn yr erthygl a enwyd. I bwy y cyfrifwn y drwg sydd yn y byd, yw pwnc yr erthygl; i ddiafol oedd ar gael ei anghofio, yw ateb parod yr awdwr.

Ar bwy, tybed, y taflwyd y baich hwn yn y crefyddau henafol? Yn nghrefydd Zoroaster, Ahriman ddichellgar, er gwaethaf Ormuzd, tad pob daioni, ddyfeisiodd erwinder a phla, a phob drygau eraill. Os anghofir y llymdra achlysurol, y bargeinio a'r diafol, a'r ambell dric chwareuodd a gelynion ei bobl etholedig, daionus a hirymarhous oedd Duw yr Hebrewr, a diafol yn ffurf sarff oedd awdwr pechod y ddynoliaeth. Cyfarfyddir a rhyw fath o yspryd drwg yn holl grefyddau y cynoesau, ac yn nghrefyddau y byd anwaraidd hyd heddyw. Yn wir, ymddengys fod yna ddoniau a thueddiadau arbenig yn y meddwl dynol tuag at gynllunio diafol. Ac yn awr, cymhellir ni i lusgo un o'r hen gysgodau rhwysgfawr hyn i oleuni tanbaid yr ugeinfed ganrif. Y

mae'r ddaear wedi rhedeg ei chwrs gynifer o weithiau er pan gynyrchodd yr athrylith Hebreig y sarph yn Eden. Ag eithrio coffa am dano yn erthyglau cred o barch i'w benllwydni, fel pe tae, ni chlywir nemawr son am ddiafol yn awr ond fel arwr chwareugân ddigrif o dro i dro; a thybed y buasai ei adferu i'w swydd gyntefig yn ddigonol i esmwythau y meddwl ar bwnc y drwg, ac i dawelu ein teimladau crefyddol. Ceisiaf ddangos y buasai yn llwyr ofer.

I ddechreu, os diafol yw ffynnonell drwg, a phechod, a phoen, pwy greodd ddiafol? Pe gallasai'r dychymyg, gydag adsain o'r byd paganaidd yn y glust, olrhain tarddellau pob drwg i un ffynonell a'i galw yn ddiafol, nid ydym un mymryn yn nes at gyflawniad y gorchwyl. Yn y dirgel, o'r tu ol i'n cyrhaeddiadau eithaf, saif y gallu creadigol—dechreuad pob peth, yn wawl i un ac yn wyll i arall. Hefyd, y mae y drwg a'r da mor gymhleth ymhob man fel nas gellir dadgysylltu y ddwy elfen, na dirnad chwaith sut y gallai y byd fyned rhagddo o gwbl heb gytundeb parhaol rhwng awdwr y da ac awdwr y drwg. Ai nid gwell, ynte, yw gadael y diafol allan o'r drefn na'i sefydlu yn gyfranog gyfamodol a'r Duwdod yn llywodraeth y bydysawd? Ond y rheswm sydd yn ysgubo diafol am byth oddiar lwyfan bywyd yw y rheswm geir mewn Gwyddoniaeth ddiweddar. Yn ystod yr haner canrif sydd wedi pasio y mae deddf Datblygiad wedi cyfnewid cymaint ar ein golygiadau, fel nas gellir bellach drin unrhyw gwestiwn o fath yr un dan sylw ond yn ngoleuni y ddeddf hon. Mewn cyssylltiad a'r byd anifeilaidd, dengys i ni mewn modd diymwad, fod yr holl rywogaethau sydd yn awr yn bod wedi graddol ddatblygu o gyflwr isel-radd, gan esgyn ar raddfa bodolaeth o waeth i well. Megis ag y mae y *breeder* beunydd yn creu rhywogaethau newydd o ieir trwy ddewis o bob deoriad y cyw gyfrifa ef debycaf i'r ddelw gain at yr hon y mae yn cynyg; felly hefyd natur trwy gyffelyb ddetholiad a ddatblyga yn raddol yr amrywiol fathau o greaduriaid.

Gan hyny, perffeithio pob creadur yw amcan mawr Duw yn natur. O'r cadarn y cynyrchir yr hyn sydd gadarnach, ac o'r had da, had sydd well. Y mae ffurf bresenol unrhyw greadur wedi cymeryd oesau di-rif i'w gynyrchu. Y mae'r ffurfiau olynol yn ei ddatblygiad wedi diflanu, ond ceir hwy eto gan y cloddiwr yn guddiedig yn nyfnder creigiau'r ddaear. Nid buddiol fuasai manylu ar bwnc mor enfawr. Unig amcan y cyfeiriad hwn at ddeddf datblygiad yw dangos y modd y mae natur yn dewis y goreuon yn mysg y miloedd creaduriaid a enir bob dydd. Fel enghraifft, cymerwn ar antur deulu yr abwydyn hwnw lyncwyd yn fyw gan y fronfraith. Gŵyr pawb mai elfenau perffeithrwydd mewn abwydyn yw medru d'od i'r wyneb i ymofyn ei bryd bwyd o ddail, a chuddio ei hun mewn amrantiad os daw bronfraith o hyd braich iddo. Amlwg yw mai'r abwyd sydd ganddo synwyrau craff a gewynau cyflym sydd yn diangc rhag ei lyncu, ac mai'r hwyrdrwm druan lyncwyd gan y fronfraith. Y pryfyn heini sydd yn byw i gynyrchu had, ac i greu eraill cyfrwys fel ef ei hun, tra y rhwystra gwanc y fronfraith yr un anghyflym rhag gadael had ar ei ol. Y mae yn eglur mai mantais i'r hil abwydaidd yw colli'r analluog a'r anghymwys, gan na adawant epil analluog ar eu hol. Y mae hyn yn wir am bob creadur byw. Difa y rhai gweiniaid wna'r oerni, a'r gwlaw, a'r gwres, a phob gelyn arall, tra y gadewir y cryf a'r cymhwys ar ol i barhau y tylwyth. Fel hyn y mae yr had yn graddol gynyddu tuag at berffeithrwydd. Yr un modd y dyn pechadurus sydd yn hau heintiau yn ngwaed ei blant; yn y diwedd diddymir ei had gan yr haint, a phan y b'o farw'r had, marw hefyd fydd nodweddion pechadurus y tadau. Perffeithio yr hil yw y nod; ond creulawn yn sicr yw y drefn sydd yn dwyn perffeithrwydd. *Shambles* gwirioneddol yw gwyneb y ddaear.

Nid oes modd gwadu gair o gyhuddiad awdwr yr erthygl, ond pwnc arall yw adgyfodi diafol fel bwch diangol i gymeryd holl faich y poen a'r gwae ar ei gefn. Cofier beth yw effaith yr anrhaith a'r creulonder—diddymu yr anmherffaith, a chadw y goreuon o bob rhywogaeth. Os adsefydlwn y diafol yn nhrefn y byd, yr ydym ar unwaith yn cyhuddo Duw o ddefnyddio yr un drwg fel gwas gwaedlyd yn llywodraeth y byd, ac yn gwneud y diafol yn gyfranog a Duw yn y gorchwyl o berffeithio ei greadigaeth. Nid ydym yn gwella cymeriad y Duwdod, ac nid yw ein diafol yn ddiafol o gwbl.

Yn y goleuni hwn, credaf nad mewn diafol y ceir balm i esmwythau y galon ddrylliog ei ffydd, nac i fywhau y claf o barlys amheuaeth. Gadawn ef, ynte, yn ei fedd, ac os cwyd neb y faneg yn ffafr ei adgyfodi, cofied mai'r Duw sydd yn peri i'r gronynau lleiaf symud yn rheolaidd yn eu cylch, ac yn gyru yr aneirif gyfundrefnau o heuliau ar eu taith yr un mor rheolaidd yw Duw natur hefyd. A chofiwn mai eiddilod mewn cyrhaeddiadau ydym ninau, megis babanod, a philen dros ein golygon; hawdd wedi'n fydd gwisgo mantell gwyleidd-dra wrth drin cymeriad awdwr y greadigaeth.

Llandyssul. T. J. EVANS.

Cof genyf ddarllen llythyr (yn YR YMOFYNYDD yr wyf yn credu) oddiwrth un o gyfeillion tadcu eich gohebydd sydd wedi ysgrifenu y llith cywrain o dan y penawd uchod, yn crefu am oleuni ar y cwestiwn, a oedd y diafol yn berson, ai nad oedd? Y mis canlynol, darfu i Tau Gimel gellwair a'r cwestiwn, trwy dystio fod y diafol, yn ddiamheu, yn berson, cyhyd ag y parhai bywyd y gwr ysgrifenodd y llythyr. Mae eich gohebydd wedi ei syfrdanu gan bresenoldeb hagrwch a chreulondeb, anghyfiawnder a difaterwch yn natur, poen ac afiechyd, pechod ac anfoesoldeb yn mywyd dyn, yn cynyg yr eglurhad fod y diafol yn fyw; neu yn hytrach, os yw wedi marw, fod yn rhaid ei gyfodi o farw yn ddioedi er mwyn clirio cymeriad gwyn y Duwdod.

Os claddwyd y diafol mewn gwirionedd, gadawn iddo yn ei fedd. Ni byddwn un mymryn yn nes i'r goleuni o'i gyfodi. Ac os bu farw yr un drwg, eglur yw na chladdwyd y drwg gydag ef. Mae drwg, pechod, ac anfoesoldeb yn aros. Y cwestiynau rhaid benderfynu yw y canlynol: (*a*) A ydyw drwg yn y byd trwy ganiatad Duw? neu (*b*) A yw y drwg wedi llithro i fewn yn erbyn ewyllys Duw? Os trwy ganiattad Duw mae drwg ar y ddaear, mae yn sicr fod iddo bwrpas. Os yw drwg yn y byd yn groes i ewyllys Duw, yna nid yw Duw yn Hollalluog. Fe gymerwn y gofyniad cyntaf i ystyriaeth—(*a*) Mae yna bwrpas i ddrwg, neu yr hyn a alwn yn ddrwg. Rhoddir min ar erfyn awch trwy ei ddala ar y maen. Cryfheir y gewynau trwy lafur caled. Meithrinir y meddwl chwim trwy astudiaeth bera flinder yspryd. Mae tynerwch, addfwynder, a chydymdeimlad yn ffrwyth caledi, poen a galar. Trwy farwolaeth y corff yr esgyna yr yspryd i fywyd. Rheol bywyd yw: "*The survival of the fittest to survive.*" Digon gwir. Ond yn mywyd y Dwyfol, ac yn mywyd pob person sydd yn meddu y ddelw ddwyfol—"*the fittest*" yw yr hwn sydd yn colli ei fywyd er mwyn ereill. Nid yw yr hen osodiad, "Trecha' treisied, gwana' gwaedded" yn wir pan gymhwysir ef at y *type* uwchaf o fywyd. Gwell a chywirach yw y syniad—"Trecha' groeshoelir, gwana' ymgeleddir." Mae desgrifiad o'r byd fel "byd gwaedlyd" yn osodiad eithafol. Mae Tennyson yn ngwaelodion pydewau anobaith pan ddesgrifia natur yn goch mewn dant a chrafanc, a chyda banllefau torcalonus yn bytheirio bygythion. Yn yr un cywair meddyliol y mae pan dafla allan ysgrechiadau oerion o'r fath hyn—"*Chaos, Cosmos! Cosmos, Chaos!*" Fel ymadroddion bardd-

onol derbyniwn hwynt, a chydnabyddwn hawl y bardd i ddefnyddio gosodiadau chwyddedig o'r fath. Ond nid gwirionedd sobr mo honynt. Mae Tennyson yn llawer nes i'w le pan ysgrifena—"Ond credu wnaf mai da a fydd"; "Llynca y fronfraith abwydyn byw." Mae y fronfraith yn derbyn bendith. Pwy all brofi nad oedd y weithred yn llawn cymaint o fendith i'r abwydyn? Mae dyn yn pechu, mae pechod yn effeithio ar ei gorff, ac mae bendith ysprydol yn dilyn i'r pechadur. Ond mae y plant yn dioddef am bechod y tad, a chyfrifir hyn yn felldith—na, fe allai y trŷ allan yn fendith. Pwy all brofi y gwrthwyneb? Cyn deall y testun yn drylwyr rhaid ei ganfod o'r un safbwynt a Duw, a hyn nis gallwn.

(*b*) Mae drwg wedi llithro i fewn yn erbyn ewyllys Duw, felly nid yw Duw yn holl-alluog. Os wyf yn deall amcan erthygl alluog eich gohebydd, dyma y nôd mae yn fwriadu gyrhaedd. Gall syniad o'r fath swnio yn anghyfarwydd, os nad yn halogedig, i glustiau llawer. Ond sanctaidd, yn ddiamheu, yn ngolwg Duw, yw pob meddylddrych pur. Credir heddyw nad oes dechreu na diwedd i'r bydysawd: fod Duw yn creu heddyw, wedi bod yn creu er tragwyddoldeb, ac yn bwriadu creu trwy oesoedd diderfyn y dyfodol. Datblygiad, yn ol dim allwn ganfod, yw y cynllun mae Duw wedi fabwysiadu yn y cread. O'r îs i'r uwch, dyna y dull. Ac mae y syniad hwn yn gwthio ei hun i'r meddwl, ac yr wyf yn ei ysgrifenu yn wylaidd a gyda pharch—*mae Duw ei hun yn datblygu.* Crewyd dyn ar ddelw Duw, ac mae dyn yn ffrwyth datblygiad, felly gallwn ddychmygu fod Duw yn cynyddu mewn urddas, gallu a doethineb. Ond mae y pellder rhwng Duw a dyn mor anrhaethol fawr: er y gallwn ddychmygu fod Duw yn esgyn; i'n parabl plentynaidd ni, Duw holl-alluog, Duw cariad, Duw cyfiawn, Duw y cymeriad gwyn yw, ac eto yn meddu cydymdeimlad trylwyr a'i blant sydd yn codi o rîs i rîs, oherwydd ei fod ef ei hun yn esgyn mewn sancteiddrwydd, ac yn Dduw cariad. Ar ol dewis cynllun neillduol yn y cread, y doethaf yn ngolwg Duw, nid gwiw i'r meidrol dystio ei fod yn gweled gwallau yn yr arddull, pan nad yw yn deall ond rhan fechan o'r oll. Bwriad y Crewr oedd gofalu am bob bywyd yn y bydysawd enfawr am filiynau ar filiynau o flynyddoedd, ac yr oedd rhagweled yr holl gynllun yn myned drwy gyfnewidiadau dirif am bob tragwyddoldeb, yn gofyn cipdrem feddyliol na allwn ddychmygu dim yn ei chylch. Pan y sylweddolir heddyw fod y ddaear am filiynau o flynyddoedd wedi ei sefydlu mewn tymheredd cymedrol er meithrin bywyd, ac y byddai ychydig raddau o gynydd mewn oerfel neu wres yn gwneuthur bywyd yn anmhosibl, yn wylaidd y dylid syrthio i lawr i edmygu y doethineb sydd yn llywodraethu.

JENKYN THOMAS,
Rawtenstall.

(*Pw barhau.*)

"Clywais siarad, clywais ddwndro,
Clywais ran o'r byd yn beio;
Erioed ni chlywais neb yn datgan
Fawr o'i hynod feiau i hunan."

ADOLYGIADAU.

Y mae brawd lleyg sydd yn credu yn gryf mewn Bedydd yn gwasgu arnaf gyda thaerineb anwrthwynebol i roddi fy marn ar y llyfr hwn*. Ceisiais ymesgusdi ond ni chymer y brawd yr un pall. Y mae genyf y parch trylwyraf i enwad y Bedyddwyr, am fy mod yn gwbl argyhoeddedig eu bod, fwyafo honynt, yn onest yn eu cred a'u bod wedi dioddef llawer drosti yn ystod canrifoedd y gorphenol; eto byddai yn well genyf beidio adolygu y llyfr. Undodwr wyf fi, ac fel y cyfryw nis gallaf osod yr un pwys ar Fedydd ag a osodir gan y Bedyddiwr. I mi nid yw Bedydd o un ffurf yn bwnc iachawdwriaeth, a phan y mae seiliau sicraf pob crefydd dan ymosodiad, teimlaf mai gwastraff ar amser yw chwareu megys ag allanolion.

Yn ddiameu genyf, etyb y gyfrol hon yr amcan sydd mewn golwg, a phrawf yn argyhoeddiadol i'r cyfryw sydd yn credu eisoes. Y mae'r pregethau oll yn ymddangos fel pe wedi eu hysgrifenu yn y teimlad iawn a gobeithiwn eu bod yn arwyddocaol o'r yspryd gwell y dymuna pob Cristion ei weled mewn cysylltiad a dadleuon Bedydd. Nid wyf wedi deall erioed paham yr ydys wedi amlygu yspryd mor chwerw yn y dadleuon hyn, ac addefaf yn barod nad yw yr enwadau eraill ddim wedi bod bob amser yn ddifai yn y mater. Y mae gan y Bedyddiwr berffaith hawl i'w gred, eithr ofnaf ei fod yn gosod gormod o bwys arni. Deallaf safle'r Pabydd a'r Eglwyswr, er fy mod yn mhell o gredu ynddo.

R.J.J.

Darllenais y ffug-hanesyn hwn* yn yr argraffiad cyntaf gyda phleser digymysg, ac adolygais ef yn YR YMOFYNYDD am 1885. Gweler tud. 39. Y mae'r argraffiad newydd wedi ei ddiwygio a'i helaethu, ac nis gall fod yn llai dyddorol. Dylai fod swyn i'r Cymro yn hanes Cymru Fu. Dylai wybod sut yr oedd yr hen dadau yn yr amser gynt yn byw. Gyda help y llyfr hwn a llyfrau tebyg iddo fe'i galluogir ef i weled y gwahaniaeth dirfawr rhwng yr hen a'r newydd, ac i sylweddoli gymaint mwy a gwell yw manteision addysg heddyw na'r hyn yr oedd ein tadau yn gorfod boddloni arno. Pwnc difrifol a theilwng o ystyriaeth yw, a ydym ni yn gwneuthur y defnydd a ddylem o'r manteision gwell sydd genym? Dymunwn i'r awdwr werthiad buan ar ei lyfr fel y byddo galw am drydydd argraffiad.

T. C. U.

---

* "Pregethau ar Fedydd," gan amryw o Weinidogion y Bedyddwyr. Llangollen: Williams, 1903. Pris, 3s.

* "JOHN JONES YN YR YSGOL," gan y Parch. Evan Jones, B.D., Rheithor Trefdraeth. Ail argraffiad. Llanbedr: Cwmni'r Wasg Eglwysig, 1904. Pris, 1s. 80 tud.

"Onid ydyw'r galon ddynol yn cynhwys deddfau moesol? Ac a oes rhaid cymhwyso peirianwaith byd arall er mwyn ei symud i ufuddhau iddynt."—*Immanuel Kant.*

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.

Parch. R. J. Jones, M.A.

Yn mis Ionawr y flwyddyn hon daeth deugeinfed blwyddyn gweinidogaeth y Parch. R. J. Jones, M.A., yn yr Hen-Dy-Cwrdd i ben. Penderfynodd yr eglwys i wneud dathliad teilwng o'r amgylchiad pwysig, a chyflwyno i Mr. Jones Anerchiad yn nghydag anrhegion gwerthfawr fel arwyddion o'u parch a'u hedmygedd tuag atto yn bersonol, a'u gwerthfawrogiad calonog o'i weinidogaeth hir a ffyddlon, yn gystal a'r gwasanaeth gwerthfawr a'r dylanwad iachus a bendithiol y saif ei enw am danynt yn mywyd cyhoeddus Aberdar a'r cylchoedd. Etholwyd pwyllgor i gario allan y gweithrediadau, ac i drefnu y cyfarfodydd, o dan lywyddiaeth Mr. Edmund D. Howells, Gelli-isaf; Mr. Gwilym Griffiths, Pantglas, yn Ysgrifenydd. Gwyddom fod y pwyllgor wedi dangos yni a gweithgarwch neillduol yn eu parottoadau, ac ni chwenychem dynu dim yn ol oddiwrth eu hymdrechion aiddgar i wneud y dathliad yn un llwyddianus; ond mae'n sicr mai nid i'r pwyllgor yn gyfangwbl yr ydym yn ddyledus am lwyddiant arbenig cyfarfod y cyflwyniad prydnawn dydd Llun, Ionawr 11eg, 1904. Yr oedd hwn yn sefyll ar ei ben ei hun, yn rywbeth eithriadol, nid yn unig yn Nghymru, ond yn yr holl Deyrnas Gyfunol, fel cyfarfod i anrhydeddu gweinidog Undodaidd. Dangosodd, mewn ffordd nas gellid ei chamddeall, y gall hyd yn nod hwnw, gyda'r holl rwystrau sydd ar ei ffordd, enill edmygedd a chydymdeimlad, nid yn unig pobl ei gyfundeb ei hun, ond ereill hefyd ydynt wedi bod yn dystion o'i lafurus gariad er dyrchafiad ei gyd-ddynion.

Nid yw yn anghenrheidiol yn YR YMOFYNYDD ar yr achlysur hwn i gofnodi manylion hanes Mr. Jones yn ystod ei weinidogaeth, a chyn hyny. Mae ei hen ddarllenwyr yn hollol gyfarwydd a hwy, ac mae y papyr ei hun trwy y blynyddau yn goffawdwriaeth arosol o'r dalent a'r diwydrwydd sydd wedi gwneud ei enw fel llenor mor adnabyddus trwy Ddeheubarth Cymru. Bydd yr Anerchiad a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn help i eraill i sylweddoli prif linellau ei gymeriad fel yr ymddangosent i un a gafodd y fraint i wylied ei yrfa am flynyddau o'r safle fwyaf fanteisiol.

Dydd Sul, Ionawr 10fed, am unar-ddeg, cymerwyd y gwasanaeth gan y Parch. W. James, B.A., Llandyssul, a phregethodd y Parch. John Davies, Alltyplacca, oddiar Psalm i. Yr oedd y tywydd yn y boreu mor anghyffredin o wlawog ac ystormus fel na lwyddodd atdyniad yr achlysur na phoblogrwydd y pregethwr i dynu ond ychydig mewn cymhariaeth i'r addoliad. Erbyn y cyfarfod dau, yr oedd yr hin wedi gwella, a'r capel yn gysurus o lawn. Gwnaeth y Parch. D. Evans, Cwmbach, ddarllen a gweddio, a phregethodd Mr. James oddiar Ioan 7 : 37—38. Yn yr hwyr daeth tyrfa fawr yn nghyd

ac yr oedd y gwasanaeth o'r dechreu i'r diwedd a ryw eneiniad hyfryd yn ei nodweddu. Ar ol y weddi hono gan Mr. Davies byddai yn anhawdd i unryw bregethwr, a rhyw fesur o yspryd y peth byw yn ei enaid, beidio pregethu yn dda, heb son am Mr. Davies ei hun. Efe ei hun oedd yn dylyn y tro hwn, ac yr oedd y weddi a'r bregeth yn un cyfangorff o ysprydoliaeth nad anghofir yn fuan. O'r un nodwedd, ac yn cael ei felusu gan gyfeiriadau tyner at gyfnewidiadau y deugain mlynedd oedd adolygiad Mr. Jones o'i weinidogaeth.

Diolchodd yn wresog i'r gynulleidfa am eu cydymdeimlad, yn neillduol ar yr adeg pan y cymerodd at ddyledswyddau y pwlpud, yn ddyn ieuanc dibrofiad, ar farwolaeth ei dad. Yr oeddent hwy yn ei adwaen ef, ac yntau yn eu hadwaen hwy ; felly yr oedd ymddiried rhwng y ddwy ochr, fel nad oedd cymaint o bryder arno i wynebu y baich. Ni ofynwyd iddo am gredo na chyffes. Daeth i bwlpud rhydd gyda Beibl agored, lle yr oedd athrawiaeth yn is-raddol, a'r peth mawr oedd dysgu egwyddorion syml crefydd a moesoldeb. Teimlai fod ei olygiadau wedi ymeangu mewn rhai cyfeiriadau, ond daliai o hyd i osod pwys ar Dduw, fel Tad cariadlawn, ar Grist fel athraw dwyfol, ar uwchafiaeth y Beibl fel llyfr crefyddol, ac ar ddiogel obaith y bywyd tragywyddol. Er cymaint y cyfnewidiadau, yr oedd yn aros o hyd, yn faich gair yr Arglwydd yn mhwlpud yr Hen-Dy-Cwrdd,—Duw, dyledswydd ac anfarwoldeb. Onid oedd yn awgrymiadol fod y pethau y gwahaniaetha yr enwadau am danynt yn amheus, ond y sylweddau tragywyddol ag y carai ef osod pwyslais arnynt, yn egwyddorion ag mae dynion goreu yr oesau wedi bod yn glynu wrthynt ?

Yr oedd yn hyfrydwch ganddo i gydnabod brawdoliaeth yr holl enwadau yn Aberdar. Yr oeddent i gyd yn gweithio yn nghyfeiriad cyfiawnder a daioni. Yr oedd llawer ffordd i Jerusalem, a rhagor na hyny i'r Jerusalem nefol. Yr oedd i bob enwad ei ddiffygion, ac i bob enwad ei ragoriaethau mawrion a'i wasanaeth gwerthfawr dros Dduw a thros ddyn. Nid oedd yr Hen-Dy-Cwrdd wedi bod yn ol i gynulleidfaoedd eraill mewn llafur dros deyrnas Dduw yn ystod ei hanes hir am gant a haner o flynyddau. O'i ran ei hun yr oedd ef o dan rwymedigaethau mawrion iddi am ei fagu yn ei mynwes pan yn ieuanc, a chynal ei freichiau fel ei gweinidog, mewn llawer gwendid yn ystod y deugain mlynedd sydd wedi pasio heibio. Bendith Duw fyddo yn aros arnynt i gyd. Mr. Jones, yn naturiol, oedd yn gweini wrth fwrdd y cymundeb ar ddiwedd y gwasanaeth, pan y cafodd y fraint o roddi croesaw i bedwar o aelodau newyddion. Terfynodd y cwrdd, fel y dechreuodd, gyda rhyw ddwysder anarferol oedd yn ei wneud yn arogl bywyd i fywyd.

Dechreuodd cyfarfod y Cyflwyniad am 3.30 dydd Llun. Yr oedd y capel wedi ei lanw, ac nid oedd sedd wag ar y llawr na'r oriel pan y daeth yn amser i ddechreu. Cyfrifid fod yn bresenol rhyw 400 o bobl. Yr oedd yno 28 o weinidogion, 12 yn Undodiaid, a'r gweddill yn perthyn i'r Annibynwyr, i'r Bedyddwyr, ac i'r Methodistiaid Calfinaidd. Heblaw y rhai a grybwyllir isod fel yn siarad, yr oedd yn bresenol, y Parchn. J. Davies, Alltyplacca ; W. James, B.A., J.P., Llandyssul; W. J. Phillips, Newton ; D. Rhoslwyn Davies, Pentre, (Undodiaid) ; J. Rees, Salem, Aberdar : J. Garibaldi Thomas, Trecynon ; J. Sulgwyn Davies, Shiloh ; W. B. Richards, Deri (Annibynwyr); Thomas Jones, Aberdar ; W. Cynog Williams, Trecynon (Bedyddwyr) ; H. T. Stephens, Carmel ; W. Richards, Aberdar (Methodistiaid Calfinaidd). Yr oedd yn bresenol hefyd y Cynghorwyr L. N. Williams, Rees Llywelyn ; Owen Harries ; Mri. G. George, J.P. ; D. W. Jones, J.P. ; J. Griffiths, Park Schools, &c.

Cymerwyd y gwasanaeth arweiniol gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen. Ar ol sylwi fod Heol-y-felin yn le hyfryd iawn i weinidogion

yr Efengyl o bob enwad, gan mai hwn oedd y trydydd achlysur i ddathliad o'r un natur i gymeryd lle mewn blynyddoedd diweddar, llongyfarchodd y Cadeirydd, Mr. Edmund Howells, Mr. Jones ar gyflawniad deugeinfed blwyddyn ei weinidogaeth, mewn ychydig eiriau calonog a thyner, a dymunodd iddo Dduw yn rhwydd yn ei waith yn y dyfodol. Galwodd ar yr Ysgrifenydd, Mr. Gwilym Griffiths, yr hwn sydd wedi bod yn nodedig o lafurus yn y mudiad hwn, i ddarllen llythyrau oddiwrth y rhai oeddent wedi methu bod yn bresenol. Cynwysai y rhai hyn genadwriaethau oddiwrth y chwaer eglwysi yn Abertawe, Gelliionen a Threbanos, yn gystal a llythyrau oddiwrth y Parchn. W. C. Bowie, Ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor; Penar Griffiths, Pentre Estyll, (A.), hen ddysgybl; Evan Jones, Hirwain, (A.); John Davies, Soar, Aberdar, (A.); a Mr. Thomas Jones, Hirwain, hen ddysgybl.

Galwyd ar y rhai canlynol i siarad —y Parch. W. Harries, (B.), diweddar Gadeirydd Undeb y Bedyddwyr Cymreig: W. James, Bethania, (M.C.), diweddar Gymedrolwr Cymanfa y Methodistiaid; J. Grawys Jones, Ebenezer, (A.); J. H. Davies, Cefn, (U.); J. I. George, Aberdar, (U.); D. Silyn Evans, Siloa, (A.); W. Tudor Jones, F.R.G.S., Abertawe, (U.); D. J. Williams, Merthyr, (U.); David Rees, Penybont, (U.); J. P. Lewis, Hebron, (M.C.); D. J. Evans, Cwmbach, (U.); J. Morgan Jones, B.A., Tabernacl, (A.); John Morgan, Brynsion, (M.C.); W. Samlet Davies, Llwydcoed, (A.); Mri. R. Bedlington, M.E., a Philip T. Rees, Cyfreithiwr, Aberdar. Dygent oll y dystiolaeth uwchaf a mwyaf gwresog i alluoedd a chymeriad dysglaer Mr. Jones, ac i'w fawr wasanaeth fel Gweinidog, Athraw, a Llenor. Dymuna y Cadeirydd a'r pwyllgor wneud ymddiheurad gostyngedig i'r rhai a garent siarad, ond na chawsant gyfleusdra. Yr unig reswm oedd prinder amser. Fel ag yr oedd, parhaodd y cyfarfod am dros dair awr, a phan y terfynodd, yr oedd llai nag awr cyn ei bod yn amser i ddechreu y gwasanaeth hwyrol.

Darllenodd Mr. Gwilym Griffiths yr Anerchiad, yr hon oedd wedi ei gosod mewn celfyddydwaith o'r fath brydferthaf, ac wedi ei haddurno a darluniau, gwaith llaw, o'r hen gapel yn gystal a'r capel presenol—

Anerchiad Cyflwynedig i'r

Parch. REES JENKIN JONES, M.A.,

gan Gynulleidfa Hen-dy-Cwrdd, Aberdâr.

Anwyl Gyfaill a Bugail,—

I ni, ag y mae ein henwau isod, mae yn bleser o'r mwyaf i arwyddnodi yr Anerchiad hwn dros Eglwys a Chynulleidfa Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, ar gwblhad deugeinfed blwyddyn eich gweinidogaeth. Teimla y rhai hyny o honom, sydd yn ddigon hen, yn falch i edrych yn ol i'r adeg pan y treuliech ieuenctid mor addawol yn ein plith, a phan y daethoch, yn naturiol, ar ol gyrfa ddysglaer fel myfyriwr, yn olynydd i'ch tad parchus fel gweinidog yr Hen-Dy-Cwrdd, ddeugain mlynedd yn ol. Erbyn hyn yr ydych yn mhlith yr henaf o weinidogion crefydd yn Nyffryn Aberdar; ac wedi dyfod yn adnabyddus yn mhell tuallan i gylch eich cartref fel Gweinidog, fel Athraw, fel Llenor, a Dyn Cyhoeddus. Yr ydych wedi tyfu gyda thyfiant y gymydogaeth lle y'ch ganwyd, a gallwn eich cyfrif yn un o'r prif alluoedd meddyliol a moesol a roddasant enw a chymeriad i Aberdar, ar wahan oddiwrth ei bri materol a masnachol.

Llawenhawn wrth feddwl am eich gwasanaeth personol fel Ysgolfeistr hynod lwyddianus am ran helaeth o'r deugain mlynedd. Mewn adeilad cyfyng a diaddurn, a chydag ychydig o'r manteision allanol sydd i'w cael yn awr, darfu i chwi osod i lawr sylfeini Addysg Uwchraddol mor ddwfn a chadarn, fel mai gwaith cymharol hawdd oedd adeil-

adu arnynt un o'r Ysgolion goreu a berthyn heddyw i Gyfundrefn Ganolradd Cymru. Fel aelod o un o'r Byrddau Ysgol cyntaf yn Aberdar, cawsoch gyfleusdra, ag y gwnaethoch lawn ddefnydd o honi, i roddi help eich barn addfed a'ch profiad helaeth i gychwyn trefniant o Ysgolion Elfenol, nad oes ei ragorach yn y Dywysogaeth. Pan y gwnaed Cyfundrefn Addysgol Cymru yn gyflawn, cawsoch yr anrhydedd pellach, fel un o'i charedigion mwyaf gwasanaethgar, i fod yn un o Lywodraethwyr Coleg y Brifysgol yn Nghaerdydd.

Carem osod ar gof yr egni meddyliol, a'r athrylith, sydd wedi nodweddu eich bywyd o'ch ieuenctid i fyny, ar faes Llenyddiaeth. Fel Gohebydd cyson i amryw Gyfnodolion, fel Ysgrifenydd bywgraffiadau Enwogion Cymreig, fel Awdwr, ac yn neillduol fel Golygydd YR YMOFYNYDD am bedair-ar-ddeg o flynyddau, mae eich cyfraniadau wedi bod yn lluosog ac yn werthfawr, yn gystal ag yn eang a pharhaol yn eu dylanwad ; ac mae eich ymchwiliadau gwreiddiol wedi taflu goleuni ar lawer congl dywell a dirgel yn Hanes Eglwysig Cymru. Ar wahan oddiwrth nodwedd feddyliol uchel eich cynyrchion, yr ydym lawer gwaith wedi teimlo y dysgant wersi mewn tegwch, hynawsedd, a boneddigeiddrwydd ag y mae angen yn fynych am danynt yn y Wasg Gymreig, yn neillduol pan y mae pynciau duwinyddol yn faterion dadl.

Yn perthyn i Gyfundeb bychan, ac yn wyneb rhagoriaethau mawrion a enillent gydnabyddiaeth gyflym mewn enwadau mwy poblogaidd, nid ydych, o bosibl, mor adnabyddus fel Gweinidog a Phregethwr, ag mewn cyfeiriadau ereill a grybwyllwyd ; ond i ni, a ddygwyd i fyny o dan eich gweinidogaeth, i'r rhai y mae adeilad syml yr Hen-Dy-Cwrdd, ei Bwlpud, a'i Bregethwr, wedi bod yn bethau cysegredig oddiar pan y cofiwn ddim, mae yn llawenydd o'r mwyaf heddyw i feddwl fod gweinidogaeth yr Hen-Dy-Cwrdd wedi bod yn ffyddlon, os nad yn boblogaidd ; yn onest a thrwyadl, os nad yn apelio at gydymdeimlad y mwyafrif ; yn pwysleisio y sylweddau mawrion sydd yn nglŷn â Duw a Christ, dyledswydd ac anfarwoldeb, yn eu cymhwysiad at angenion a phrofedigaethau dynion ; bob amser yn barod i groesawi y newydd, pan y daw, gydag awdurdod Gwirionedd, ac i lynu wrth yr hen tra yr erys ynddo hadau bywyd ysprydol a ddygant ffrwyth er hawddfyd a chynnydd y byd.

Yr ydym yn falch hefyd, ar gyfrif eich ffyddlondeb yn cyhoeddi gwirioneddau anmhoblogaidd trwy y blynyddau, i'ch llongyfarch ar y ffaith fod tuedd meddwl goreu yr oes hon yn cadarnhau eich addysg, a bod cynrychiolwyr mwyaf goleuedig yr enwadau mawrion yn Aberdar yn dechreu gweled fod rhyw faint, a a dweyd y lleiaf, o sylwedd ac o wirionedd Dwyfol yn nghenadwri arbenig Pwlpud yr Hen-Dy-Cwrdd, ag yr edrychai eu tadau gyda chymaint o ddrwgdybiaeth a dychryn arni ddeugain mlynedd yn ol. Wrth gydnabod, gyda diolchgarwch dyfnaf ein calonau, y gallu, yr ymlyniad, a'r dyfalbarhad sydd wedi nodweddu eich gweinidogaeth, y cydymdeimlad parod at eich brodyr a'ch chwiorydd yn eu treialon a'u cystuddiau—cydymdeimlad a darddai yn naturiol o galon wedi ei phrofi ei hun—dymunwn i chwi hir flynyddau etto o wasanaeth gyda'r achos goreu ; ac fel bydd y cysgodau yn ymgynull, llewyrched eich llwybr fel y goleuni fwy-fwy hyd at ganol dydd, ac arosed yr Arglwydd yn ei dangnefedd arnoch chwi a'ch teulu o'r awr hon hyd byth.

Arwyddwyd,

Jenkin Llewellyn	D. J. Jones,
Morgan Jones,	W. Thomas,
E. D. Howells,	Evan Jones,
R. Llewellyn,	L. Llewellyn,
M. Morgan,	John Davies,
Ebenezer Davies,	John Evans,
Evan Davies,	D. T. Davies.

G. Griffiths, *Ysgrifenydd.*

Cyflwynwyd yr Anerchiad gan y Cadeirydd, ar ran yr Eglwys, mewn araeth fer, syml, ond yr hon a nodweddid ar yr un pryd gan gyffyrddiadau tyner, yn neillduol, pan y cyfeiriodd at yr Anerchiad fel yn aros yn y teulu i fod yn gymhelliad ac yn ysprydoliaeth i'r plant i ddilyn llwybrau eu tad trwy eu hoes; a'r anrhegion eraill yn ffurf *Ink-stand* arian, Ysgrif-bin aur, a Ffon wedi ei *mounto* mewn aur, gan Mrs. Rees, Llwyncelyn Villa; Mrs. Williams, Pantysgawen, a Mrs. Davies, Llewelyn Street, tair o aelodau henaf yr Eglwys. Siaradodd y diweddaf yn y modd mwyaf effeithiol am ei chysylltiad hapus a'r Hen-Dy-Cwrdd, yn ystod gweinidogaeth Mr. Jones, a chyn hyny. Cydnabyddodd Mr. Jones y rhoddion mewn ychydig eiriau pwrpasol, a llawn o deimlad. Yr oedd yn ddiolchgar iawn am y geiriau caredig oedd wedi cael eu dweyd, ac yn neillduol, am yr hyn oedd tucefn i'r geiriau, cydnabyddiaeth o ymgais ei fywyd am ddeugain mlynedd i weithio dros y Meistr. Terfynwyd y cyfarfod, yr hwn oedd wedi parhau am yn agos i dair awr, trwy ganu emyn, a gweddi gan y Parch. J. P. Kane, Dowlais. Ar ol tê, oedd wedi ei barottoi yn y Festri i ddieithriaid ac ymwelwyr, daeth cynulleidfa lawn yn nghyd drachefn am saith. Dechreuwyd gan y Parch. J. Grawys Jones, Ebenezer, a phregethwyd gan y Parch. W. James a J. Davies. A barnu oddiwrth y gwrandawiad astud, gellid meddwl fod cenhadwri y ddau frawd yn cario rhyw ddylanwad gyda hi. Wrth derfynu, gyda chalon rhy lawn braidd i'w dafod lefaru, diolchodd Mr. Jones i bawb oeddent wedi cynorthwyo i wneud y gyfres gyfarfodydd mor llwyddianus.

UN OEDD YNO.

GWEINIDOG Y MYNYDD.

GAN TUDFATHAR.

XIV. (parhad).

'Mae'n amlwg, Deio, nad yw'r Efengyl ddim wedi cael gafael yn eich calon chwi hyd yn hyn. Dewch i'r capel yn *regular*, Deio; gadewch y 'peth-yfed' yna ar ol, a gweddiwch am faddeuant cyn yr elo i'n rhy ddiweddar; ceisiwch, da chwithau, anghofio eich hen syniadau penrydd a Sosinaidd, a mynwch Grist cyn y bo hi'n *too late*: rwyf yn sicr y cymerwch chwi gymaint a hyna o gynghor gen i.'

'Wel, gna Mr. Roberts, mi gymra ran o'r cynghor, a gweyd y lleia, er i bod hi'n galed i neyd cymynt a hyny. Mi dreia ddod i'r cwrdd bob dy' Sul, a mi na ngoreu i rondo arnoch chi; ond mae'n galed, Mr. Roberts, i adel y peint ar ol. Lychgoch chi ma nawr, rwy'n hen bererin, yn tynu'n dyn ar yn nhrigen-a-deg, ac wedi arfer câl llymed drw'n oes. Ma'n aelwyd i'n ddigysur iawn y nos ma, ag ma'r tafarn yn gyfleus; ma'r gwely'n oer wrth yn hunan y gaua, a mae peint yn codi calon dyn. Mae'n brion peth i beido meddwi, ond mae'n rhy galed i rhoi hi fyny *owl together*. Meddyliwch chi nawr, Mr. Roberts, pe bae rhywun yn treio cal gyda chi roi'r bib a'r dybaco na heibo. Shwt y byddech chi'n teimlo? Mae'n ddowt gen i a allsech chi neud ych pregethe ne beido heb ych

cwarter o *shag* yr wthnos. Ag am y Sosinied, wath gen i weyd e na'i feddwl e, mae gen i feddwl uchel am danyn nhw. Tawn i'n galler cadw at i rhiwls nhw o fyw, mi fyswn i yn ol reit. A phe bai Mr. Jones heb gael i hala o'r Mynydd, mi fyswn i'n myn'd yno eto ar droion. Bachgen nêt odd Jones, beth bynag wed y bobol am dano.'

'Blaidd mewn croen dafad oedd e; cellwerwr oedd e, Deio; *blagard* oedd e, Deio. Coeliwch fi, a dyna ddigon ar y pen.'

'Ma na lawer heblaw chi'n credu nhy, Mr. Roberts, ond cyn wired a bod y mwrthwl ma yn yn llaw i, ma nhw'n gneyd y mistec mwya nawd ariod; ag falle nag os neb ond Deio'r Go yn gwbod gwreiddyn y matar.'

'Ry'ch chi'n rhy barod i wneud yn ysgafn o bechodau dynion, Deio. Sut y gellwch chwi wneud i ffwrdd a'r ffaith fod Mr. Geraint Jones yn feddwyn ac yn dwyllwr. Faswn i'n dweyd dim am y gofid y mae wedi beri yn y nghartref i, pe bai e heb dynu gwarth ar Gristionogaeth yn y gymydogaeth—gwaith myn yr Undodiaid yma deitlo eu hunain yn Gristionogion.'

'Choiles i ariod, Mr. Roberts, fod Geraint Jones yn euog o'r pechode ma ma nhw'n godi yn i erbyn e. Dw i ariod eto wedi gwel'd un pechadur heb fod marc y pechode rwle yn i wmed e. Ond weles i ariod farc ar Geraint Jones.'

'Mae'r diafol yn gyfrwys, Deio, a phan yn gwisgo mantell dysg a pharchedigrwydd y cuddia ei hun oreu. Cofiwch am Jabez Balfour.'

'Gwir, gwir, Mr. Roberts, ond nid ar yn adnabyddiaeth i o'r natur ddynol rwy am ryddhau'r gweinidog, ond mae gen i rwbeth mwy *sound* dan yn nhrad. Mae yn y pentre ma bechadur fil gwath nag y myn pobol fod Geraint Jones; a dwi'n gwbod dim am neb amgenach na chi i weyd y cwbwl wrtho.'

'Peidwch coelio storiau gwragedd neu gleber y pentre, Deio. Gwell gadael y cyfan yn y man lle mae.'

'Ie, Mr. Roberts, ond dyle pawb gal whare teg. Whare teg i'r diafol i hunan mydde rhw hen ddyn. Rwy'n credu y credech chi fod rhwbeth yn yn stori i tach chi yn i chlwed hi.'

'Wel, ynte, dewch a hi.'

'Rown i'n dod adre o Fronwerdd un nosweth o'r wthnos ddwetha, ag mi ddoth yn gawad; a gorffod i fi fynd dan lwyn drain i gwato dipyn. Rodd hi gyda'r nos, a chyn pen chydig rodd hi'n dowyll *pitch*. Mewn rhyw dipyn ar ol i fi eiste yno, dyma fachan a merch ifanc yn i fraich yn dod heibo, ac yn siarad yn dỳn iawn ar ryw bwnc. Gan i bod hi'n bwrw'n drwm dyma'r bachan yn gweyd wrth y lodes. 'Dewch i gwato dipyn dan y llwyn ma,' ag yn galw arni wrth i henw. A thyma nhw'n aros am dipyn dan lwyn rhyw whech llath o wrthw i, ag rown i'n clwed pob gair o'n nhw'n siarad. Alla i ddim gweyd y cyfan wedo nhw, air am air, ond cyn pen chydig iawn mi ddyalles ma am Geraint Jones odd y siarad, ag am Miss Nwyfa chi.'

'Dyna, Deio, dyna ddigon, rwy'n mynd. Rwy wedi clywed digon o bethau fel yna i ngyru i'n wallgo.'

'Nage, nage, Mr. Roberts, stopwch funud.'

'Na, Deio, mae brys arnaf, bydd yn amser cinio yn y fan, a mae geny' i fynd i ymweled a lluaws yn y prydnawn.'

'Ond, Mr. Roberts, gadewch i fi ddybenu, ma Miss Roberts yn ddieuog.'

'Y merch i'n ddieuog, ydyw, mi wn hyny gystal a chwithau.'

'Ond rwy wedi câl mas waelod y celwydde i gyd am Geraint Jones a hithe.'

'Y diafol yw tad y celwydde i gyd, Deio, a dyna ddigon am hyny, rhaid i mi fynd. Bore da i chwi.

'Ond grondwch ar y rhest o'r stori. Mi ges mâs y nosweth hyny pwy sgrifenodd y llythyr i Griffiths y Mynydd am Geraint Jones,—fod gydag e wraig; mi ges mas pwy fuodd yn tanu'r stori am dano fe a Miss Nwyfa, ag mi ges mas pwy fu-

odd yn sgrifenu i Abertaf i'r Coleg yn erbyn Nwyfa.'

'Y fileiniaid. Pwy oeddyn nhw.' Pwy sydd wedi bod yn sarnu caritor fy merch i?'

'Rych chi yn u nhabod nhw cystal a finne. Ond falle i bod hi'n ddigon i chi gâl gwbod ma cenfigen sy wrth wraidd y cwbwl, ag mai celwydde yn tarddu o'r genfigen ma sy wedi bod yn mynd yn mlan o'r dachre i'r diwedd. Doedd dim dowt gyda fi o'r dachre nag oedd Geraint Jones mor ddieuog a finne, a mwy dieuog o lawer o feddwi a thwyllo, a dodd dim dowt gen i nag odd Nwyfa chi mor wyn i charitor a'r angel; ag erbyn hyn, Mr. Roberts, rwy'n shiwr o'r ddou beth. Fu dim dafan o bethyfed yn mhen Mr. Jones tra bu e yn Llwydfaen, a fu dim gwraig gydag e ariod. *Nonsense* odd y stori am Nwyfa yn caru ar y traeth yn Abertaf, ma Nwyfa'n ddieuog.'

'Ie, ond pwy odd rhain, Deio, odd yn siarad am y llythyrau yma, ac am Geraint a Nwyfa?'

'Mae'n well gen i beido u henwi nhw. Dwy ddim am neyd drwg i neb. Ond ta beth all dynion weyd am Deio'r Go, ag ma Duw'n gwbod fod iddo i feie ddigon, 'does neb all weyd iddo gal i ddala ar gelwy ariod.'

'Na, Deio, mi greda'ch bod chwi'n eirwir. Ond fe wyddoch, yn ddiamheu, ei bod yn ddyledswydd arnoch i ddwyn y peth hwn i oleu dydd, gan fod y diniwed yn gorfod dioddef o'i herwydd.'

'Wel, falle caiff e ddod i oleu dydd rhyw dro, ond dyna ddigon i neyd ych mynwes chi'n esmwyth am dipyn, Mr. Roberts. Rwy i am weyd yr un peth wrth sgrifenydd Eglwys y Mynydd, ag os na fydd hyny'n ddigon i glirio caritor Mr. Jones ai gâl e nol os bydd yn bosib yn weinidog yto ar y Mynydd, wel, mi weda ragor pan fo ise. Ond mi leicwn i weld y cwbwl yn dod nol i'w le heb neyd drwg i neb.'

'Amhosibl, Deio, mae'r fileiniaid sydd wrth wraidd y fusnes hon wedi bod wrthi yn plethu rheffyn am wddf eu hunain. *Murder will out*, Deio, medd y Sais.

'Mae clustiau gan y cloddiau
A llygaid gan y coed:
I'r lleidr ac i'r llofrudd,
B'ont hwy'r cyfrwysa 'rioed.'

'Eitha gwir, eitha gwir, ag mi geith y cloddiau a'r coed weyd pwy yw'r euog, ond wed Deio'r Go ddim, os na fydd yn rhaid iddo er mwyn y dieuog.'

'Wel, bore da, Deio, dewch i'r capel y Sul.'

'Mi dreia ddod, Mr. Roberts, os bydda'i byw ag iach.'

PRIODAS.

RHAGFYR 29ain, 1903, yn Nghapel Penuwch, yn ngwydd y Cofrestrydd, gan y Parch. E. Jones, Llanon, ac E. O. Jenkins, Llwyn, J. R. Thomas, Ysgolfeistr, Pontshan, a Mary Jane Jones, Dyffryn, Penuwch.

"Oes hir, a iechyd, a chysur."

MARWGOFION.

GORPH. 26, 1903, yn 85 oed, Mrs. Anna Evans Jenkins, Morris Run, U. D. A. Ganwyd Mrs. Jenkins yn Gwernogle, Sir Gaerfyrddin, ac ymbriododd a William G. Jenkins yn Aberdar. Ganwyd iddynt naw o blant, o'r rhai nid oes ond y ferch henaf yn fyw. Yr oedd yn ferch i Daniel Evans, un o frodyr y Parch. Thomas Evans—Tomos Glyn Cothi.

RHAGFYR 21, yn ddwy flwydd oed, Tommy, mab John Richards, Brynhyfryd, Landore, ger Abertawe. Cludwyd gweddillion y bychan i Pantdefaid y dydd Iau canlynol, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

RHAGFYR 24, 1903, Thomas O'Connell, Saer maen, Derlwyn House, Pencarreg, ger Llanbedr, yn 74 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn un o aelodau hynaf eglwys Brondeifi, a melus ganddo yn ei henaint a'i fethiant oedd taflu ei olwg yn ol dros yr amser a fu, a galw i gof y tadau fyddent yn arfer cydaddoli yn eglwysi Brondeifi a Chaeronen yn y dyddiau gynt. Yr oedd ei briod, a thri o blant wedi ei ragflaenu, ac y mae tri eto'n aros. Ar ddydd ei angladd daeth torf luosog yn nghyd i ddangos parch i'w goffadwriaeth, ac i hebrwng ei weddillion i fedd yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

RHAGFYR 30, bu farw Elizabeth Davies, Pantyrhwch, plwyf Llanbedr, yn 81 oed, gan adael merch, ac ŵyr, ac un brawd mewn galar ar ei hol. Claddwyd yn mynwent Eglwys Llanwnen y Sadwrn canlynol, pryd y talwyd y gymwynas olaf iddi gan dyrfa luoscg. Gweinyddwyd yn y tŷ gan D. Evans, Capelygroes, ac yn Llanwnen gan y Ficer.

RHAGFYR 30, yn 25ain oed, bu farw Benjamin, mab ieuengaf Benjamin a Hannah Jenkins, Ty'nberth, ger Cribyn. Gwniedydd oedd wrth ei alwedigaeth, a bu am rai blynyddoedd yn gwasanaethu mewn masnachdai pwysig yn amryw leoedd. Tua dwy flynedd yn ol, gorfu iddo ddychwelyd adref gan anhwyldeb; ac er pob gofal a medr methodd gael adferiad, ac ehedodd ei yspryd at yr hwn a'i rhoes, ar y dydd a nodwyd. Chwerw i deimladau'r tad a'r fam a'r brodyr a'r chwiorydd yw ei golii mor gynar; a chydymdeimlir yn fawr a hwynt yn eu profedigaeth gan gylch helaeth o gyfeillion a chydnabod. Hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono i fynwent Dihewid y Llun canlynol gan dyrfa anarferol o luosog. Pregethwyd yn y tŷ gan weinidog Cribyn.

IONAWR 3, yn 66 oed, Jane Williams, Blue Bell, Cwrtnewydd. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

IONAWR 6, yn 40 mlwydd oed, Mr. Phillip Thomas, Cilanw, Llanboidy, Mab oedd yr ymadawedig i Mr. David Thomas, C.S., gynt o Castelldraenog. Dyn tawel, cydwybodol oedd, ac iddo air da gan ei holl gydnabod. Yr oedd ei gymeriad y fath fel yr hawliai iddo ei hun lu mawr iawn o gyfeillion. Pan oedd achos Undodaidd yn Rhydyparc yr oedd ef yn bresenol yn aml, er fod ganddo gryn bum milldir o ffordd i fyned tuag yno. Wedi hyny, ymunodd a'r Eglwys Anibynol yn Llanboidy. Dioddefodd gystudd caled am amryw fisoedd. Y Sadwrn canlynol hebryngwyd ei weddillion marwol i fynwent Eglwys Anibynol Llanboidy, pryd y pregethwyd i dyrfa fawr gan y Parch. D. S. Davies, gweinidog parchus y Bedyddwyr, yr hwn a gymerai le y Parch. W. Thomas, gweinidog y lle, yn herwydd yr amgylchiad prudd a'i cyfarfu yntau ychydig ddyddiau yn ol, trwy golli ei anwyl briod. Gadawodd luaws o frodyr a chwiorydd, priod a phump o blant, a thad oedranus i alaru ar ei ol. Cwsg yn dawel, anwyl gyfaill, a disgyned gwlith y nef-

oedd yn dyner ar dy fedd.—P. P.

IONAWR 13, yn 4, Currie St., Aberaman, Aberdar, Sam. Price, yn 59 oed. Yn yr angladd dydd Sadwrn gwasanaethwyd yn y ty ac yn y Cemetry gan R. J. J. a Thwrfab. Gedy Mr. Price weddw a thair merch mewn galar ar ol priod a thad ffyddlon a chariadus.

Mewn hyder ac mewn ymddiried
Yn nghariad y Tad mawr,
Yr Hwn sydd yn selio'r dynged
Gadawn ein brawd yn awr.

MANION AC HANESION.

UNDODIAID CYMREIG LLUNDAIN.—Y mae'n amlwg nad yw holl Undodiaid Cymreig Llundain am fod yn esmwyth hyd nes y b'ont wedi gwneuthur o leiaf un ymdrech ddifrifol eto i sefydlu achos Cymreig yn y Brifddinas. Un o'r prif symudwyr yn y mater-y tro hwn ydyw Mr. Tom G. Jenkyns, o swyddfa'r *Islington Daily Gazette*, ac un o'r rhai blaenaf i roddi cefnogaeth i'r mudiad pan gychwynwyd ef gyntaf tuag wyth mlynedd yn ol. Deallwn fod y foneddiges adnabyddus, Miss Lucy Tagart, hefyd, yn awyddus arbenig i weled achos Undodaidd Cymreig yn Llundain, ac i'r perwyl hwn crybwyllir y bydd iddi lywyddu dros gyfarfod o Gymry i'w gynal yn Nghapel Little Portland Street—hen gapel Dr. Martineau—yn gynar yn y flwyddyn newydd pryd y rhoddir gwahoddiad cynes i holl Undodiaid Cymreig Llundain i fod yn bresenol.

LLANDYSSUL.—Dydd Calan, yn Neuadd y Porth, anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul y Graig a gwledd o dê a bara brith, &c., gan Miss Thomas, Gwion Castle. Daeth nifer luosog yn nghyd i gyfranogi o'r wledd, a hawdd oedd gweled eu bod oll yn ddiolchgar i Miss Thomas am ei charedigrwydd a'i haelioni. Cynorthwyid hi wrth y byrddau gan amrywiol foneddigesau perthynol i'r capel. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd llwyddianus iawn yn mhob ystyr—yr ystafell yn orlawn, y datganiadau a'r perfformiadau yn rhagorol. Y mae llwyddiant anarferol y cyfarfod yn ddyledus i ymdrechion ein pobl ieuainc mewn gwahanol gyfeiriadau, a byddai eu henwi i gyd yn restr rhy faith i'w chofnodi. Felly ymataliwn. Bydded i'r llwyddiant hwn fod yn ernes o ymdrechion a ffyddlondeb newydd y flwyddyn hon.

TREBANOS. — Prydnawn Nadolig ymgasglodd deiliad ein Hysgol Sul oddiamgylch y "Goeden Nadolig" yn Ysgoldy y Cynghor. Yr oedd y "Goeden" gyda gwobrau, teganau ac afalau yn hongian ar ei changau, yn arddangos prydferthwch godidog. Dosparthwyd triugain a thri o lyfrau i'r ysgolheigion oeddent heb golli rhagor na phump tro o'r Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn ; a rhoddwyd tua deuddeg o "wobrau cysur" i'r plant lleiaf y rhai oeddent wedi dangos ffyddlondeb da iawn. Rhanwyd hefyd gant a deg ar hugain o *toys* ac afalau. Teimlir yn ddiolchgar i'r ddwy chwaer fu'n casglu at yr uchod, ac i bawb daflodd eu hatlingau i'r drysorfa. Hyderir y bydd hyn yn gymhelliad newydd i ffyddlondeb mwy gyda'r Ysgol yn y dyfodol.

Hwyr Nadolig cynaliwyd ein cyfarfod adloniadol blynyddol. Cafwyd adroddiadau, unawdau (lleisiol ac offerynol), deuawdau, ac un darn gan y Seindorf Arian. Aeth pawb trwy eu gwaith yn fendigedig, er boddhad cyffredinol. Daeth torf yn nghyd, a bydd yr elw yn mynd tuag at drysorfa i gael llyfrgell yn nglŷn a'r capel. Ni anturiaf i ddechreu enwi neb, ond dymunaf gyflwyno pob

clod a diolchgarwch i bob un fu'n gweithio er gwneud yr uchod yn llwyddiant.

Dydd Sul, Ionawr 3ydd, 1904, derbyniwyd wyth o aelodau newydd. Testyn llawenydd yw cael arwyddion newydd ar ddechreu blwyddyn newydd fod yr achos da yn cynyddu. Deallwn y bydd ereill eto yn dod yn aelodau yn mhen mis. Yr Arglwydd fendithio ein hymdrechion fel gweinidog ac eglwys, a gwneled ni oll yn fyw i'n dyledswyddau amrywiol.

BWLCHYFADFA.—Prydnawn dydd Iau, Rhagfyr 31, cafodd pobl y lle uchod eu digonedd o dê a bara brith o'r fath oreu, a chafodd y Plant *oranges* yn ychwanegol. Yn yr hwyr cynaliwyd y cyngherdd blynyddol yn Ysgoldy y Bwrdd, Talgarreg. Capt. Davies oedd yn llanw y gadair, a'r Parch. E. O. Jenkins oedd yn arwain. Credwn fod mwy o bobl yn bresenol y tro hwn nag erioed, a chlywsom lawer yn dyweyd mai dyna y cyfarfod goreu o'r natur yna ag y mae pobl Talgarreg wedi gael eto.

GALWAD.—Y mae Mr. Simon Jones, B.A., o Goleg yr *Home Missionary*, Manchester, wedi derbyn galwad wresog ac unfrydol oddiwrth yr eglwys yn Pontypridd, a da genym ddeall ei fod yntau wedi cydsynio a'i chais. Bwriada Mr. Jones ddechreu ar ei weinidogaeth yr haf nesaf ar ol gorphen ei gwrs golegol.

LLWYNRHYDOWEN. — Prydnawn dydd Nadolig, yn Nghapel y Llwyn, holwyd Ysgolion y Bwlch a'r Llwyn gan Mr. Simon Jones, B.A., yn Actau ix. Daeth y ddwy Ysgol yn gryf i'r cyfarfod. Yn yr hwyr, yn yr hen gapel, cafwyd cyfarfod adloniadol hwylus a phleserus. Llwyddodd Miss Hopkins, Llanelli a Mr. Harris, Cross Hands, i godi y dorf i hwyl anghyffredin, a theimlai pawb fod *quality* yn y canu. Aeth y talentau lleol trwy eu gwaith yn ganmoladwy hefyd. Cadeiriwyd gan Capt. Davies ac arweiniwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

DYMUNEM roddi croesaw calonog i'r *Essex Hall Year Book* am y flwyddyn 1904, ac i ddiolch i'r Golygydd, y Parch. W. C. Bowie, am yr holl lafur sydd wedi gwneud y llyfr mor gyflawn ac felly mor ddefnyddiol i bawb a gymerant ddyddordeb yn ein heglwysi ac yn yr achos sydd wedi ei ymddiried iddynt. Profa'r ddangoseg ar y dechreu y fath amrywiaeth o faterion sydd yn cael sylw. Mae rhestr y gweinidogiogion yn ei chyflwr ddiwygiedig y flwyddyn hon wedi costio cryn lafur i'r Golygydd, ac y mae pob adran arall wedi myned o dan yr un adolygiad gofalus. Ymddengys 13 o enwau newydd yn rhestr y gweinidogion, ac yn eu plith ddau Gymro—y Parchn. J. Evans, B.A., Bolton, a D. Rhoslwyn Davies, Pentre. Sylwn fod enw y Parch. W. E. Addis, M.A., athraw yn Ngholeg Manchester wedi ei adael allan. Dywed yr *Inquirer* nad yw yn Undodwr mwyach, a deallwn ei fod mewn mwy o gydymdeimlad a'r hen Eglwysi hanesyddol nag y bu; ond sicrheir ni gan yr *Inquirer* na wnaiff hyny yr un gwahaniaeth i'w safle fel athraw yn Ngholeg Manchester, a llywydd Addis Hall lle mae myfyrwyr y Coleg yn trigianu.

LLYFR COFNODION. — Teimlwn mai un angen ein cynulleidfaoedd yn Nghymru ydyw gwneuthur cofnodiad manwl o holl weithrediadau yr eglwysi. Mor ddyddorol heddyw fyddai darllen hanes ein heglwysi gan mlynedd yn ol. Gymaint o oleuni daflai ar hanes a chynydd yr enwad y perthynwn iddo. Un rhwystr ar y ffordd i gario hyn allan ydoedd, ein bod yn amddifad o lyfr priodol i ysgrifenyddion ein heglwysi er croniclo'r amrywiol ffeithiau fel y digwyddent. Mae y rhwystr hwn bellach wedi ei symud, ac y mae ein diolchgarwch yn ddyledus i Mr. Bowie am ddwyn allan lyfr defnyddiol i'r pwrpas. Cynhwysa gant a haner o dudalenau. Ynddynt ceir lle arbenig i gyfarfod a phob angen. Mae dros haner cant o dudalenau wedi ei neillduo er rhoddi enwau a

chyfeiriadau yr holl aelodau. Pa eglwys sydd genym fedr ymffrostio mewn rhestr gyflawn o'i holl aelodau yn ystod yr haner can mlynedd diweddaf? Ni wneir dim yn well na dechreu 'nawr, trwy ddanfon am y *Record Book*. Ei bris ydyw haner coron.

BRONDEIFI.—Cynhaliodd yr eglwys uchod ei gwyl dê flynyddol ar y 30ain o Ragfyr, 1903. Huliwyd y byrddau a chyflawnder mawr o'r danteithion arferol mewn gwleddoedd cyffelyb, a gweinyddwyd yn serchog a chroesawgar ar y gwyddfodolion gan luaws o foneddigesau rhy luosog i ni eu cofio, na'u henwau ar hyn o bryd. Anrhegwyd y plant ag eurafalau a melusion gan Dr. Evans, Mrs. Evans, a Mr. Lewis, Liverpool Stores. Yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod adloniadol a chystadleuol. Beirniadwyd y canu gan Meistri J. Bowen, Llanbedr, a Dl. Davies, Tycapel, Caeronen, a'r Adroddiadau, &c., gan Mri. D. Teifi Jones, a W. S. Jones. Byddai rhoddi enwau y buddugwyr yn bwyta gormod ar eich gofod.

CAERONEN.—Cymerodd te parti yr eglwys uchod le ar y 6ed o Ionawr, a da oedd genym weled cynifer o gefnogwyr yr achos bychan yn y lle wedi dyfod yn nghyd—yn blant ac yn ddynion mewn oedran, a hyny, nid yn unig am fod eu presenoldeb yn rhoddi calondid i'r boneddigesau caredig oeddent wedi myned i'r draul a'r drafferth i barottoi y fath wledd ragorol, ond yn benaf am fod eu presenoldeb yn arwydd o'u sel dros achos sydd yn ceisio dal i fyny faner rhyddid, boneddigeiddrwydd a chydraddoldeb crefyddol yn ngwyneb llawer iawn o anfanteision. Ar ol y wledd dê anrhegwyd y plant a melusion. Yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod adloniadol a chystadleuol. Beirniadwyd y canu a'r adroddiadau gan Mr. J. Davies, Carrara House, Llanbedr. Rhoddwyd help gwerthfawr yn y cwrdd hwn gan foneddigesau Llanbedr. Cyflwynwyd hefyd dystysgrifau y Gymdeithas Undodaidd Gymreig i'r plant.

BWRDD Y GOLYGWYR.

Mewn llaw ac i ymddangos yn eu tro :—Penillion Omar ; Englynion i Llandyssul, gan Dewi Hefin ; Y Parch. Timothy Davies, Evesham, gan S.N.S. ; Chwedloniaeth, gan Jacob Gabe, Ammanford ; Adgyfodiad y Diafol, gan y Parch. W. Tudor Jones, Abertawe ; Cyfieithad o "*Eternal Goodness*" Whittier ; Mewn addewid :—Lewis Lloyd y Bancer, gan T.C.U.; Y Ddau Lyfr Pregethau—Y Cyferbyniad, gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca ; Y Pwlpud oddiar safle'r Lleygwr, gan J. Lewis, Pontypridd ; Y Proffeswr Harnack o Berlin, gan y Parch. J. M. Jones, B.A., Aberdar ; Y Proffeswr Wendt o Jena, gan y Parch. W. Tudor Jones ; a Dr. Vance Smith, gan y Parch. J. Grawys Jones, Aberdar.

J. D. Lewis, Ager Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

Awarded a
Diploma of Merit of the
First Class for
Knowledge of Tailoring
and Skill in Cutting
by
T. D. Humphreys, M.A.,
Ph.D. ;
and Two Years Cutting
at
Lush's, Pontypridd.

W. JONES,

Civil, Military, & Clerical
Tailor,

Hatter, & Gent's Mercer,

LINCOLN HOUSE,
LLANDYSSUL.

We are well prepared for Autumn and Winter with a Select

Stock of Overcoats, Rainproof Coats & Mackintoshes

In all sizes and patterns.

Prices : 10/-, 12/6, 15/-, 20/-, 25/-, 30/-, and upwards.

LLANDYSSUL COUNTY SCHOOL

(FOR BOYS AND GIRLS).

Head Master: WILLIAM LEWIS, M.A., Cantab.
Late Foundation Scholar and Prizeman of Queens' College Cambridge; wrangler 1890

MISTRESSES :

Miss S. A. Jones, C.M. ; Miss Myfanwy Jones, B.A., Honours, Wales.

Classics and Modern Languages : J. Keble Hudson, M.A. (Oxon.).
Late Open Classical Scholar of Wadham College Oxford ; 1st Class in Lit. Hum., 1890.

Science : T. J. Evans, B.A., (Oxon.).
Late Scholar of Jesus College Oxford ; Honours in Natural Science ; Naples Research Scholar of the University of Oxford ; Inter. B.Sc., Lond

Drawing : Wm. Jones, A.R.C.A., (Lond.), of the Carmarthen School of Art.

Instrumental Music : Miss Delia Williams, L.L.C.M.

Vocal Music : Rev. T. Arthur Thomas.

Laundry and Cookery : Miss E. W. Williams.
First Class Diplomas in Laundry and Cookery

This year's successes : 4 London Matriculation (1st Div.), 2 Rendel Scholarships, 2 U.C.W. do. 1 County do., 1 Agricultural do U.C.W., 1 Science Scholarship Lampeter College (Open). 2 King's Scholarships. Pupils of this School are now holding Scholarships at Oxford Aberystwyth and Lampeter to the value of £881.

Tuition Fee: £1 per Term or 3 per Annum. Music Pianoforte) £1 1s. per Term

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sole Agents for the well-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

BEST MACHINE OIL 2s. per gallon.

ALBION, ❁ LLANDYSSUL.

Bedsteads from 15s. to 45s.
Wool Beds, 15s. each.

GRIFFITH DAVIES.

Boots and Shoes of Every Description.

Splendid Value and Special Attention given to this Department.

BEST MACHINE OIL 2s. per gallon.

STEAM SAW MILLS, LAMPETER

DAVID DAVIES, TIMBER MERCHANT.

ALL KINDS OF FOREIGN TIMBER, DEALS, BOARDS, SKIRTINGS AND MOULDINGS.

SLATES, BRICKS, FLOOR TILES AND PIPES KEPT IN STOCK AT LOWEST PRICES.

Cambrian Factory, Lampeter.

DAVIES BROS.'
BOOTS & SHOES

ARE POPULAR IN ALL TOWNS.

WHOLESALE AND RETAIL.

HYACINTHS, TULIPS, CROCUS, DAFFODILS & OTHER DUTCH BULBS AND FLOWER ROOTS

Imported direct by

HARRY COYSH, SEEDSMAN & FLORIST, NOTT SQUARE, **CARMARTHEN.**

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees and Shrubs, Climbers, &c., &c.
Wreaths, Crosses, Wedding and other Bouquets, &c.
Seedling and Named Carnations, Margaret Carnations, Wall Flowers, Brompton and Victoria Winter Flowering Stocks, Iceland Poppies, Forget-Me-Nots, &c., &c. . . A Large Stock of Sankey's Celebrated Flower Pots as supplied King Edward VII.
Gardens and Pleasure Grounds laid out and planted.

H.C. has had over 25 years' practical experience in Home and Foreign Nurseries, including the world-renowned Royal Nurseries and Seed-growing Establishment of Ghent, Belgium, the most complete in the world.

Seed & Bulbs Lists, Tree & Shrub Catalogues Free.

Llysfaen House, Llanybyther.

DAVID ⊛ EVANS,

Draper, Grocer, Corn, Flour and Seed Merchant
Ironmonger and Implement Agent.

A Large Assortment of Men's, Youths' and Boys' Ready-Made Suits and Overcoats.
Suits and Overcoats made to measure.

Henry Thomas's Emporium

2, GUILDHALL SQUARE,

. . CARMARTHEN.

DEPARTMENTS:

Mantles,
Millinery,
Flowers,
Ladies' and Children's Outfitting.

Gloves, Hosiery,
Skirts, Blouses,
Corsets,
Ribbons, Lace,
Trimmings.

Linens, Sheetings,
Calicoes, Prints,
Curtains,
Haberdashery,
Dress Materials,
Silks.

Dress and Costume Making a Speciality.

TIMBER YARD & STEAM SAW MILLS

LLANDYSSUL.

The Llandyssul Timber & Slate Co.

LARGE STOCKS ALWAYS ON HAND OF

Red, Spruce and Yellow Pine Deals.
American Oak Coffin Planks and White Wood Boards.
Red and White Matched & Plain Boards.
Flooring & Walling Bricks, Socket Pipes, Junctions, Bends, &c.
Stone Sills and Flags.
Carnarvon Red Slates.

INSPECTION INVITED. ORDERS PROMPTLY EXECUTED.
SOLICITING YOUR ESTEEMED COMMANDS.

Farmers, you require Implements and Machinery for your work. Come for them where your interests are studied all the year. The best place in South Wales for

AGRICULTURAL IMPLEMENTS

IS

Eynon Thomas' Stores,

At Implement Works, Llanybyther,

AND DEPOTS AT LAMPETER & TREGARON MARKETS

Also a Large Assortment of all Kinds of Agricultural Implements of the Best Makes. Extra Fittings for all Makes. Every Article warranted to a full test. Any faulty parts will be replaced free.

I also manufacture on the Premises, Horse Gears, Cheese Presses, Curd Mills, Saw Mills. All kinds of Brasses, unfinished or finished, and Ordinary Repairs by Modern Machinery and Experienced Workmen.

Specialities—Water Wheels, Threshing Machines, Brass Work, Acetylene Gas and Electric Fittings.

Easiest Terms, Low Prices. Inspection and Enquiries Invited.

Note Address—

Eynon Thomas, Implement Works, Llanybyther.

LEONARD C. FARLEIGH, Llandyssul, S.W.,

The Largest Importer of Royal Daylight Petroleum in South West Wales.

Free Delivery per Tank Wagon within a Eight Mile Radius.

A Large Selection of Oil Storage Tanks in Stock, from 10 to 200 gallons.

Advantages of having Petroleum delivered per L. C. F.'s Tank Wagon: 1. The Petroleum delivered free per Tank Wagon, and measured into your Casks at your door. 2. No leakage or waste, and none of the heavy expense of carting from Station. 3. The Petroleum is of superior quality, as it comes direct from the ship's side to me. 4. Prices will show an advantage from what you would pay in Bristol.

Your inquiries would be esteemed by yours truly,

LEONARD C. FARLEIGH,

The largest Oil Importer in South West Wales.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums, Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads, D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid.

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.